

BRATIAU BUDRON

Cerddi

Bobi Jones

I

Beti

CYNNWYS

Plant yn dod yn ôl	5
Yr Eiliad Arbennig	6
Chwilio Golau	8
Crwban-garu Pedwar-ugeinoed	9
Cydwybod y Fam Ddaear	10
Pam yr Aeth Ystwyth yn Rhy Fawr	11
O'r Bwced	12
Y Gwrandäwr	14
Taith Ffarwel	15
Mai na fu (2009)	18
Seiniau Isel Henaint	19
Bylchau rhwng Geiriau i Gâr	21
Rhyw ganrif	22
1941	24
Bygwth Derw Pen-y-bont	25
Camre Carbon	
(i) Ôl Troed y Ddaear	26
Portread o Lanhäwr-Strydoedd	35
Portread o Ystadegyn	38
Portread o Wraig a Gasglai Gŵn	41
Portread o Paul	43
Portread o Fod a Oedd Yno	47
Portread o Wraig a Gamdriniwyd	48
Portread o Dywysog	51
Portread o Fam a Ddaliodd ei Thafod	55
Portread o Brydyddes o Oes Fictoria	57
Portread o Wraig a Ddioddefasai	58
Portread o Hen Enwagen Theatraidd	60
Portread o Thomas Radcliffe Jones	62
Portread o Gwalia Ll. Jones	64
Portread o Wil	66
Cloi'r Oriol Bortreadau	68
Bratiau Budron	70
Mawl i Ofn	77
Dewis	80
Achub Wyneb â Llaw	82
Addoli Rheg	85
Cais am Gynllunio	86
I Gyfarch Ceiliog Gwynt	88
Gofod Annwyl	90
Gwyndra'r Sul	92
Eilio'r Clod i'r Ail Berson	94

Tân ym Methel	96
Marwnad i'r Drych	98
Dau ym Mai	104
Arhosser i Gyfrif Tri	106
Dowch i Weld y Môr	109
pryd ar frys	112
Beth oedd y gair?	113
wado ymlaen	117
Bendith Rhagfyr	119
Cerbyd Gwartheg	121
Camre Carbon	
(ii) Ôl Troed y Nef	123
Sŵn ar Ffenest	130
Dilyniant ar Beidio	131
Chwilio am Gwsg yn Nulyn	136
Y Tro Olaf	139
Ar y Gweill	140
Wedi i'r Adar Brinhau	141
Plas y Bwci	144
Torri Oed	146
Drych	147
Kakabekia Barghoorniana	148
Chwarae cariadon	150
Sêr yn Gwyllo	151
Darganfod Cefn	153

PLANT YN DOD YN ÔL

Mae yna saith o blant yn tasgu preblan ar yr hewlydd.
Y rhai cyntaf, Beti, ers cantoedd, mwya'n c'wilydd!

Gwranda'u gwaeddau'n lliwio'r awyr a bod yn garedig
wrth y gofod. Mae'u cymwynas hwy'n daenelliad ar gerrig

y gymdogaeth gan darfu ar lawntiau ac ar fowliau
crog blodau dan fargod... Ddaw neb piwus â'i gwynfanau

amdanynt. Mae'r bore'n uchel ei gloch hyd ffosydd
y gwynt, — a'r cymdogion o'u deutu'n lledu ar ei gilydd

wenau henoed fel balŵnau; neu fel cynffonnau-ŵyn-
bach a syrthiasai'n ddisylw rhwng brigau'r brysglwyn

aeon yn ôl ond yn awr sy wedi dod o hyd i hwian
eu siglo perygl o flaen si hei lwli awelon glân,

a'u gwiboed heb wybod eu bod, hwy'u hunain, yno'n
darfod o hyd gyda'r baban anwybod sy ym mhobun...

Wrth i wyrth-y-chwarae atgyfodi lliw a lle'r
adwy, a'u dal hwy i orfoleddu'u hymson mewn amser,

myn pensiynwyr ganiatáu i'w clustiau gythru i'r sbri
rhag ofn i'r holl falŵnau fwrstio mewn sylweddoli.

YR EILIAD ARBENNIG A GYFYD WDDWG

Yr eiliad ffrwt — sy yno —
Wedi sgrialu. Olynydd annwyl
Fu — a wêl uwch cornel.

‘Rhowch ei olud i’r poced dyfnaf —
Dan yr hances — iddo fod
Ynghladd ryw hyd cyn atgyfodi.’

Na: o’i ddoethineb, ’all
Y call byth bythol wneud
Y camgymeriad di-wad o’i din-droi.

Swydd hwn fydd estyn gwddwg.
Ynysig fysai’i anwesu
A’i faldodi’n glau fel peth brau.

Gwyll ydyw chwennyeh aros.
‘Heb gael’ yw trafaelu byth.
Nid tranc yw gwanc heb daith.

Na hidia am yr hyd. Ym mryd rhai, brad
Yw parodrwydd ei frys i dyfu,
Onid digon o hyd, ymestyn?

Eithr yn lle’r arferol, â dwylo cydia’r
Dwys yn ei fodoli chwil
A’i daflu’n hedegog

Yn fellten fechan, gan iddo

Untro, dragwyddoldeb yn ôl,
Wybod nad hyd yw'i hyder namyn taldra.

CHWILIO GOLAU

Y gwenoliaid oedd afon yr hwyrllan
rugl a mud gydag aroglau mân
heb wallt gwyn o'r allt gain.

Wrth i'w difyrrwch diferion
redeg i'w gilydd megis ysbrydion
chwilient olau. I lawr eu hwynebaw

oer ddi llygaid y lloer i lygad eu lle
lle anelai'r gwenoliaid wedi i'w golygon weled,
ar lun gwreichion gwib, ddagrau gwybed.

Rholient drwy'r cyfddydd gan ddadrolio'u
carpedi carpiog; a llwybr eu hanadl ar led
a ddarparai stryd i'r wybren gerdded.

Fel y bydd dadmer wedi hir eira'n
flaguro'n ffrwd yma a rholio ambell fwndel
tywyll fân ar dro i ddiferu'n firi ar stumogau,

felly y deuent hwy'n Gyfarwydd i arwain
yn dwannel tua muriau'r wawr, wrth i bob bol
holli'n afon hafaidd i'r eira feiriol.

CRWBAN-GARU PEDWAR-UGEINOED

Awel-o-dawel
yw'n crwban-garu ni.
Honno drwy'r ogof
a'r llynnoedd tanddaearol
sy'n anadlu'r stalactidau
a'r stalagmidau mud,
gan lusgo, rhwng piler
a philer ynghudd
allan o'r dwst, y dydd.

Crwban-garu? Sbort
'fu'n gaeafgysgu dan
ddau ysbryd ynghyn
ynghynt. Cofier
Ynys-yr-Iâ
a'r llynnoedd twym,
ac ambell jet ar waith
fu'n gaeth yn saethu-
foli: rhwystredigaeth

wedi datganoli yw
peth felly. Dani glŷn
ein dinas lyn; a'n llwch
o lafa ni'n diferu'n
gêl o genedlaetholdeb
nef. Ei llywodraeth hi
a'n dadwladolodd ni'n
ager araul eisoes. Fel hyn mae llwch
go wyrff yn gorfod caru.

CYDWYBOD Y FAM DDAEAR
(yn ei gwely, myfyrdod gwyrdd mam a erthylodd)

Bob bore glas am *dri* o'r gloch
ailalwaf y lofruddiedig
a'r manion mawr yr anghofiais eu dweud
wrthi, — hwiangerdd wledig
a chwarae lleol, — fel na châi
weld gwae drwy 'nhrem gaeedig.

Cell fu fy ngwâl lle nad oedd ffoi
rhag *pedwar* na'r deffro ynddo.
A cher fy llaw roedd daear lwyd
yn cymylu'n garbon i lamu
arnaf: dillad diwrnod cynt
led ffurfafen daclus bygddu.

Bob bore cwypai'i *phump* o'r gloch,
'mechan, cyd-gofiwn feichiogi,
cyd-gofiwn dy gic; fi'n garreg fam,
yr un na adawai iti
lefain am funud lond dy grud;
fi 'a'm corff fy hun': rhad iddi!

Asiwyd ein perthyn gan garbon glob
chwech. Arwynebolwyd daear.
Ysgafn rhyngom y bolio mam
a droes dir trachwant claeare
yn deulu unig hebom mwy,
drwy ferch glai 'ddygyd gan botsiar.

Ein perthyn! Yn fore am *saith* o'r gloch,
clyw ddiniweiten garbonedig
wedi picio'n ei hôl i'm cegin â'i chân.
A gwaedaf fy rhod tan gynnig:
'dere Siân, hwylia i osod bwrdd
i'th fam ddaear erthyledig.'

PAM YR AETH YSTWYTH YN RHY FAWR I'W SGIDIAU

Beth mae'r bore'n ei lefaru wrth y cesair barbaraidd
Tan rihysio'r dydd wrth eu cracio fel derw o'r fesen,
A'u haraf agor ar y bryn rhwng cols ei ddannedd union
Trwy annog i'r ffrydlif sug rollo ma's fan hyn
Yn ddel o feddalwch gwinllan ei llafariaid gwyn?

Dim ond 'lledwch yn y dyffryn ras eich myfyrion',
Fel pe na bai'n gwneud ei gorau eisoes bob diwrnod sych,
Er iti dybied ei bod wedi encilio â'i rhoddion o'r neilltu
I eistedd ar y lan, ac i bensynnu drwy glustffon crych
Am y tyddynwyr acw'n codi pedolau tractorau tirion.

Dim ond 'siapiwch wefusau'r glannau fel y gwnâi trwch
Rhyw wawr gyffredin i sipian yr eiliadau a'r oriau heb straen
Fel pe na theimlai ddim ots.' Dim ond 'bodolwch',
Fel pe na fedrai neb arall farchogaeth ar y pwerau sy'n
Ei fflawntio'n fannau graslon yn fendith groes i'r graen.

Dim ond 'taenwch eich dillad yn ddig'wilydd yn nistryw'r
Afon orau.' Gŵyr y graean gwirion yr awron nad yw'r
Haul namyn plu a chwythir i ffwrdd yn rhy fuan
Wrth ddianc dan dynnu'i fentyll a'u lluchio i'r dŵr.
Pwy sy'n dweud nad yw hen Ystwyth yn ei meddwl ei hunan?

Yn wylaidd dro yr wyla dyn drosti ar ei liniau megis llo
I sugno'i thethau. Hi yw sug y wlad sy'n dweud mwy na'r gwir
Tan snwffian bro. Gwasgwyd hi drwy'r pridd. 'Ond a oes ganddi le
Cudd i gyfanhau'r holiadau hyn? Pa gyfrinach liw bore
A hawlia'i hawdurdod drosom?'... 'Dim ond tyneru tosturi'r tir.'

O'R BWCED

1

'Dy gig di sy'n chwythu'r mwg,'
meddai'r Meddyg Mwyn â gwên.
'Dy fôr di sy'n diferu.' Yn y cefn
Mozart a ymunai yn y bwced
dur wrth iddo dorri nawr
oddi uchod drwy'r drwg â'i fydr.

A dilynai'r Cogydd y trydan
mwyach trwy f'anhrefn fudr.
Del oedd y dôn. A fi mor agos
at y mwg, mor bell yn gwranddo
ar rŵn y gyllell yn tywallt
fy nghlwyfau cerddorol i fwced.

Nid dieithryn monof i'r mwg
du draw llwyd i'r llen
a'm cysgodai rhag yr ing.
A dôi'r Mab iach i nabod
fy nghnawd a'r tameidiau fi
a ffrwtiai'n anghytgord yn eu tro

i'r bwced. Adwaenwn innau'r gwaed
a gynganeddai'n gadarn hael.
Aberthid mewn tân ei fod
fel pe na bai ond rhythm ar gael.
Hyrddiwyd fy nydd heb dân
i noson lon mwg ei gân.

2

A churwyd diwaelod y bwced
fel ar ddrws. Cnoc flêr
a agorai i'r difancoll. Ond
miwsig oedd y ffusto, pêr
yr anwybod yno i ble
y dôi fy nghig iddo'n bryd.

Ble âi fy nŵch? Ble
cymerwyd holl loes fy oes
a'i dawn o berleisio dig?
Y bwced biau'r cig. 'Cei di
fynd allan, fel y dof i
i mewn,' meddai'r Cogydd

cain, gan gyfeilio mewn cartref.
Ond yn y bwced hwn,
y fath fawl, y gwawl drwy'r drws
a fu'n curo ar y gwelwi crwn.
Gwridwn i. Ma's o'r crwc —
mewn gwendid dreng y dringwn

yn wledd O! gyd-drawiad cord
o ris i ris ar frys. O'r blys!
Dyma gwrdd ag awyr lle
y trympedai'r môr ar y goleudy
dydd tan guro ar fy mwced
alaw drwy ginio coginiedig.

3

A thynnwyd o'm bwced funud gron
o gwmni dy gerdd, fy Arglwydd.
Dangosaist ti, er lloned oedd,
na cheid 'ma byth ond arwydd.

Mi godaist funud arall ma's
a gurai ar dy gariad
yn crogi'n ras ar gaswir groes
a'th angau di'n oroesiad.

Drwy bobî 'nghorff mi bliciaist ti
funudau gofunedus —
dy ethol cêl, dy waed, a'th sêl —
afieithus fêl o'th wefus.

A rhagor eto. Ond rhyw gân
annigon fân ac aflwydd
oedd y curiadau crwc gen i:
chwenychwn anghyfarwydd.

Rhwygais, o'r bwced, olaf un
o felodïau dynoldeb
yn funud gawr. Nid brechdan 'ges.
Gwaedd ildiaist dragwyddoldeb.

*[Y dyddiau hyn yn bur fynych, darperir, yn theatr y llawdriniaeth, fiwsig yn gyfeiliant i'r gwaith
pan na ddefnyddir anestheteg lawn.]*

Y GWRANDÄWR
(S.L.)

I

Clywsai ynghynt wÿs dirion uwch afon yr ochor draw
gan forwyn Loreley dlos, gerllaw ei throbwll,
yn ei atynnu i Ewrob euraid. Estynnai hi law
wahoddiad i'w gorsedd: 'Cei fawrhydi cyfandir arall,

crugyn o hud gan fyd. Tyred nawr i'n plith.'
Dôï'r cyweiriau cywrain ato... Eithr o'r tu ôl,
gartref, caed gwlad o dwll. Ar ei waelod rhith
twll arall, llai, ond real ddigon, yn erfyn di-dâl;

danodd caed sisial fel gan isnormal bryf
a haeddiannol ei ddirmyg: 'Alla-i gynnig dim
eithr coron o sen, cenfigen wen iti'n llawryf,
ac yn ddiau, Coedwig Ddu o gamddeall.'... Yno'n chwim,

y gwrandäwr a droes adre' ati — a'i bin yn fwyell,
ond ei ben yn iasol o isel, — yn ôl, tua'r twll.

II

Mae'n rhaid inni i gyd wrth faddau. Does fawr o fyw,
gyda phobol, heb lwyth o edifarhau. Bu'n rhaid i ni —
nyni o bawb — faddau Sbaen (a'th eglwys) i ti
er iti glywed y dadrith felltith 'gaed o friw i friw
gan y gomiwnyddiaeth a adnabuost ti rhag dy flaen.

Ond caeaist dy glust rhag gwrando ar wich y Basg
a falwyd gan gyfalafwyr Sbaen a'th fodlonai â'u Pasg
anfadgeuol. Do. Rhaid fu faddau iti dy Sbaen
fel y bu'n rhaid i tithau faddau'n chwithig Gymreig i'th Blaid
am iddi gefnogi'r Basg yn groes i'th Bab. Bydded yn hael
tua symleiddiad gwleidyddion, hil newyddiadurol o wael
heb arogl'r drawdod dan drwyn. Maddau fydd raid.
A rhaid iti faddau i ni'r dwli a wnaethom yma i'th dalar;
ac na wranda ar symlder y pawb, ysydd mor fuddiol fyddar.

TAITH FFARWEL YR AFONYDD

1

Erbyn cyrraedd llythyrau olaf bywyd
mae cynifer ato o rai serch ar ôl,
a chymaint o eisiau inc, fel nad erys digon ar gyfer esgusawd go iawn.

Benthyciaf afonydd rhwng eu glannau,
cofnodion helpfawr fyddant yn eu hamlenni.
Anfonaf beth inc ynddynt gan garbon wybren i frolio am ein cyd-riediad

ac am ein dolen gymen ddi-dor. Oni
ddylsem amgau collnod gyda'm cofnodion
i ymddiheuro am eu byrder a'u hysgrifen ambell lecyn?

Drychau di-hid ynt lle y teflir ein hager
cariadus gwefus-arian i fyny, ir
anadlwyr dyri — canu dŵr fu'u cenadwri; — ond nadredd yw'n taradrau.

Ambell hwyr bydd arnaf hiraeth
am anfon afonydd serchocach. Amheuaf na fyn rhai
o'u cymylau hiraethu amdanaf i. A dyna pam nad ynt yn ymgrymu:

llorweddol denau ynt o'm hamgylch yn golchi.
A cheir ambell — ambell? — un lancesaidd yn codi,
— eithr miloedd o rai hagr sy'n fertigoli i daro dagrau ar y to uwchben

cyn ymollwng yn nhŷ haf môr.
Gall y rhithio hwnnw ddarparu postmyn
gan fod afonydd noeth mor blwyfol. Anadlant hwythau

lythyrau rhyngwladol mewn arddull wlanog.
Oes yna drydedd stad, aeaf iâ?... Oni ddylid
ailddechrau? — milddechrau! Wel, nofiwch 'nôl ar f'eigion o gusan.

2

Beth sgrifenna f'inc? Onid am gelwydd ein gwyliau
fel sy gan bobun yn Sbaen sbo ac yng Ngroeg
yn coegio na fuont yn gymylau a deithiasai'n uchel tua phegwn y De.

Beth gyffesant? Meddyliau clod a allai fod ar herw
fel twristiaid glôb ynt sy'n eu bwrw'u hunain
yng nghylchrediad eu gwaed uwch rhod y ddaear, dros ryd yr awyr,

yr un dôn a'r un lleisiau dros-dro, i'r un sglod
a sgod y daethant; a ffasgaidd fuasai dweud na
fuont oddi cartref; gweithwyr ynt ar drot gwibdeithiol, heb ymweld â dim,

i gwmpasu siopau anrhegion â goleuadau addurn,
a'r ysbryd yn dod yn ffyddlon o leban
atynt hwy yn yr afonrwydd a roddwyd i'w llygaid drwy'u ras dansherus.

I'r perwyl hwn, o blant hyd at fam, dônt
i badlo o'r newydd yn y môr, drwy waed y tywydd,
crwydriaid ar gylchdro, heb gyrraedd unman. Cyflwynant eu carolau blodau

i'w rhiant. Dod a wnânt yma i amlinellu
anallu'u creadigrwydd i'w mynegi.
Ond wylant i'w cefnfor trofannau. Cyfyd eu greddfau riddfan uwch ei olau.

Codi, dyrchafu oedd eu taith bureiddiol,
fel yr heneiddiodd cri'r wlad edifeiriol hon
o'u nwydau. Ni neidid o sylweddoli'u broc. Onid cynhenid fu i'w bro

3

ddal i ollwng cymylau hyd gymylau gwefus-
arian o'i mynwes? Hyd gyrsiau y câi'u
gwythiennau leibio'n to heb ysgol, o'u bedyddio mewn nwyon carbon.

Y rhain 'gaiff fod yn llythyrau uchod drosof.
Dichon y daw'u baw'n biwus law ar draed
i danseilio fy nghymhwyster i gyd-deimlo â'u tonnau dadrithiad.

Ac ymlaen i blymen o rew! Hwy sy'n dolefain
o'r awyr am yr arswyd a gyflwynwyd i Gymru
gan Gymry, hwy yw golygon cymodlon y ffynnon wan dan fryn.

Gymaint o atgno disgyn gan gynifer
o nentydd o'r neilltu, sy ym mendith
eu gwael! Ai fel hyn y caraswn innau'u cennad i ddweud y Drefn?

4

Dechreusid gynt yn amgenach yn ferched
mewn ffrogiau chwyrn uwch dawns figyrnau,
er mor undon fu'r gylchdaith rodres. Yn rhadlon eu hawdlau rhedent.

Eto, rhwydid y rhai lleiaf rhag aeddfedrwydd.
A graddol ridyllid llygredd, yn y glesni,
i'w hesgeiriau. A'u breichiau, a'u geneuau: Budrellach, Bodo, a Chnyffiad,

drwy lynnoedd, drwy lannau
aflan, dan bontydd lle y caent odinebu
o'u gwamalrwydd gysgod sy'n cuddio'u hanfoes enfawr rhag eu hwybren.

Llillo ac Igi. Gwaedlin afonydd
eu canol-oed rhannol-brin yn troi'n epistolau
mewn corsydd o wylo. Cors Dwlla, Cors Fochno, ar flaenau'u bodiau.

Carthwyd y rhai hynaf gan chwerthin
mynyddoedd peryg o ddagrau yn y nen
hei ho! Hafren, Dyfrdwy, Gwy, plu'u hawyr yn cludo'u hymdrech-olaf gusanau.

Miliynau o hen alwyni paradwys
uwch byd o damprwydd — gwlad?
— ie, un y cyffyrddwyd â'i phryd gan sblander er iddi draethu cylched o ffarwel.

A'r cwbl i olchi Cymru! A'i chau wedyn mewn amlenni
i'w phostio ymlaen i ganrifoedd erydedig
a egyr yn firi o foreau, wedi teithio drwy aren ambell noson ddu fel fi.

Nodyn: Budrellach, Bodo, Cnyffiad, Llillo, Igi: nentydd neu afonydd distadl yn Siroedd Penfro, Trefaldwyn, Brycheiniog, Ceredigion, a Meirionnydd. Erbyn hyn, mae Bodo wedi sychu'n gorn.

MAI NA FU (2009)

O'r gorau, bu Mai eleni ar ei liniau gwelw
i ddechrau. Ciciwyd e'n rhith â gwllithog guwch
i fwllch rhwng brigau syrthiedig a mwswg masw.
Ond lles i ysbryd yw colli'i lawenydd is neu uwch

a gwybod. Ni ddaeth ef atom fel fy Meiau eraill:
bu'n feius ei fynd oddi wrthym fel un na ddaethai.
Eithr dyletswydd i Fai yw parablu bob amser â chyfaill
yn ei feirmiadaeth orau. Gwir mewn ambell ffrwgwd difai

mai mân belydrau anystywalltedd – allan! – yw,
er y gall fod yn waeth na hyn. Ond mi fedr fod yn wiw.
Canys pan na cheir yma ein Mai, yna man a man
yw parchu'r peidio. Gwastraff fysai esgeuluso'r cliw.

Mawrygwn o'r herwydd bob Mai clwc: derbynier y gwan
hyn, felly, gan mai gwell yw dwysbrofi'i goll.
Nid methu i enaid yw ymostwng wrth golli'r oll:
daw Mehefin yn ei lifrai newydd a chwarae ei ran.

SEINIAU ISEL HENAINT

1. Clywed y Môr Draw (awr 61,320)

Mae 'na guriadau yn yr eigion
ac mae'r plant yn eu clywed.
Efô a'u caria hwy'n fydr
sy'n bwrw'u calonnau
er mwyn eu cynnau'n gân i'w ganlyn.

Eto, cyn encilio mae e'n gosod
ledled y traeth rai olion
siâp cyfrinachau
dan y tywod
ac mae'r plant yn eu clywed.

Ni ddealla'r plant mo'r eiliadau hyn
lond eu serchiadau sy'n mydru
heb eu traethu
na'r munud pam y myn
y tonnau henaidd hyn
eu hatynnu mewn teios tiwn dan eu tywod.

2. Clywed Chwithdod Hen Aelwyd (awr 613,200)

Daethom heb sŵn na gwên i bwd
hen dŷ wrth glunfaglu'n ôl:
dau gloff heb rin ond ni ein hun
i fywhau'r tristwch cêl,
nes i'r hen gelfi ganfod y jôc,
a chwarddai'u nenfwd clwc.
O'n gweld ni'n hen mewn adleisydd hen
fe holltai'u wep hwy'n glec.

Edrychai'r magwrydd henaidd 'nawr
ar ymyrraeth heneb dau
ddi-win ddi-ddawns yn arlwyo'r llawr
â'u cluniau wedi'u cloi.
Heb gig aelodau i lenwi'r bwrdd
na miwsig mwsg o'n llwnc
dyma greiriau dychwel i'r preswyl hen
'fyn chwerthin drwy'r lle fel llanc.

Ni sylwn ar ddodrefn gwydn o'n cylch
fel blagur yn y tir
yn colli'u lleisiau, hŷn bob dydd,

tan grawcian yn eu côr.
Mae'r tŷ bob tu yn digri droi'n
amgueddfa am ein cyrff.
Atom dros garped tu ôl i'r glwth
llinynna'r llwch fel sarff.

3. *Clywed Anadl Hen Wraig yn Hepian*
(awr 613,201)

Mae'r gwynt yn 'siffrwd' weithiau, medd y beirdd.
A phwy wyf i i amau'r fath ddarfelydd?
Clywais siffrydiad ednod gynnau pan fentrwn
ger ofnusrwydd henllwyn a ollyngai ei adenydd.

A phe bai genni glustiau gwerth eu cael,
di-au y clywn, o dan adenydd eu dychryn,
siffrwd eu hysgyfaint taer. Ond nid oes debyg
i'r siffrwd a wna hon, wrth gipio cyntun

a hwylio 'bant tan docio'r diwrnod gwantan
â'i hanadl, a finnau gyda hi mewn breuddwyd
sy'n siffrwd wrth lithro mewn cwch erioed na chlyw-wyd
mo'i ddistawed ar lyn ledled yr hyntoedd gwynllwyd.

A'i hanadl? Hwylia hwn drwof wrth imi wrando
ar ffrwd o'i siffrwd. Wrth imi glustfeinio'r llepian
dros stylod ei bad, breuddwydia hi am donnau tenau
fy mreichiau sâl-môr yn gylch-achub i fun 'fyn hepian.

4. *Clywed Cyfrinach y Gorffennol*
(awr 613,202)

I'm synnu, mi ddaeth ein presennol
ataf, snwffian, troi ar sodlau'n lân
a chyda rheg hamddenol o dawel
mynnai hwn genni henoed o gân.

'Melysach yw bod yn orffennol:
mae gynnon ni lot mwy o griw.'
'Ydych chi'n dal yn fyw,' gwawdiai yntau.
'Pa ddwli? Byth-gadwaf fy lliw.'

'Ffynnu yw fforte'r gorffennol,
mae'n hel rhywbeth newydd o hyd.'
'Ond gŵyr fod rhaid plygu i drywydd
y dyfodol 'adeiladodd y byd.'

BYLCHAU RHWNG GEIRIAU I GÂR

Y bylchau rhwng fy ngeiriau a syfla o hyd mewn serch.
Hwy a edwyn golled chwyth a'r ymgrymu 'geir mewn parch
sy'n gwyro at dy glyw, a'u tôn yw dy leibio'n ddistaw.

Y bylchau rhwng sillafau a'th lanwodd di â'm tân
sy'n deifio ymyl seibiannau lle y'n cyneuir yn betruster hen
fel na chyfrifaf ddim ar ddaear mor lluniaidd ei stad ag adwy.

Yr hoeau methiant rhwng geiriau 'ylch ddyhead uwch am Air.
Hwy yw'r gyfrinach dda, hwy'r ddringfa ffôl mewn ffair
cyn llithro'n ôl, cyn rhuthro'n faich i gôl dy freichiau,

oblegid ym mwllch fy myfyr y paratôir sŵn gan synnwyr
o'r golwg yn her sy'n benwan. Fe'i cynyddir erbyn hwy
trylwyr pan ddêl ein sêr. Ac wedyn y daw'n bêr oferu.

Pa bryd drachefn y caiff y llwnc, y llaw, y rhwnc, a'r rhwyd
hyrddio'n ôl i'r bylchau hyn, cerflunio anadl huawdl ein nwyd
heb dy forddwydydd byth, heb ddim o'th forddwydydd gwychion,

heb ebychu dim yw dim wrthynt, ond gadael i'r datganu di-lais
yn wyndra o nos i nos ail-eneinio marwor côr yn ffwrnais
y Gair a'n gorlanwyd â bwllch gwrthddweud a ddwedodd Gread?

Byth? Bylchau o'r fath ar flaenau'u traed a wnaed yn heini
eu henaint. Un funud, llethant: araf eu hwyl a'u helynt y dônt
heb sibrwd symud rhagddynt: a'r nesaf,... A!r ennill sill.

RHYW GANRIF

1

Erbyn pen y ganrif, moderneiddiwyd ei rchieingerdd:
fe'i daliwyd hi mewn un o'i strydoedd cefn,
a'i threisio. Ni fedrai syfrdandod cerdd dan
amrannau mwyach byth goleddu'r drefn.

Bu farw'r ganrif unig honno yn fy mreichiau:
un o'r canrifoedd hirgoes 'na oedd hi
gyda phlorynnod pygddu ar ei thrwyn;
bu farw'n addfwyn; ond pethau oedd ei phethe.

Nid hardd y rhodiai'i Nadolig olaf o ddôl
i ddôl. Arian a ruai'n garol ffarwel tu ôl i'w llen
frwnt. Crinai ymysg y celyn pe buasai
'na gelyn. Bu Calennig yn llai na chytseinedd.

Amhenderfynwyd y ganrif i ganu'r amryw.
Teimlai nad oedd hi erioed wedi sipian
cariad yr un. O ble y dôl hawl i uncnawd
byth? Onid cân contralto fu gorchfygu'r bas?

Felly y pynciai dau fochyn ryw heb Ras:
felly y casglwyd un ganrif arall i'w rhes.

2

Rhyw, rwyt ti'n ei deall. Mae'n bugunad
i lawr drwy'r dyffryn, i fyny i'r coed.
Am ragor y rhega o hyd. Enw benywaidd yw.
Ac ni rydd rwydd hynt ond i wŷr a wŷr ddawn

tresio gwaed. Trosiad gwiw i bobman yw
ei eisiau, o ryw ben i ryw droed. Ond
beth 'wna o gyd-barch? Enw gwrywaidd
sy'n arch i draha. Eto, daw i'th garchar

draserch heb foesyngrymu. Beth 'wna o Gyfeilles?
Cais i goncro cenedl arall yw, fel milwr a gyll
ei ddryll wrth blygu i glymu'n rhwydd garrai, fel
rhaff wrth groesbren. Ac er nad oes dim a fynno

gwleidyddiaeth wely â chynganeddu, rhwng
y ddeuddyn hyn ni ellir y groes gytwys
heb ddwlu ar draws a llusg. Ni chyfieithir ond
rhyw esgoriad arall byth rhwng pob Adnabod.

Rhyw. Myn rhai canrifoedd ymddwyn fel tylcau; rhai.
 Maen nhw'n coelio nad oes dim byd llai
 i'w cynnwys na swae. Ond dacw'r ymarferoldeb
 ar randir, dacw baentio'r sied, cyd-gysuro,

sy'n cynnwys plesio Duw ger tatws. Ac acw
 rhwng dau ffrind a hedd cydweithrediad dagrau
 yn fwclis o gylch un gwddwg, weithiau wrth wneud
 uwd mi sieryd 'Gosteg' diriondeb yn y tiroedd. Onid

benywaidd yw honno eto, felly, (a rhyw) i ddau?
 Ai archryw i'r diganrif 'fu eiliad o beidio â chynnau?
 O'i oherwydd, yn bâr o ladron diledryw dilyw sws,
 nid heb archfyw enfys y prynasom gariad mor ddi-ffws.

Diau fod yna gorff anwel a ollyngodd drosom urddas;
 a chaniatéid, hyd yn oed i amser, wau drwom ryw berthynas.

1941

I. YMGOM AR ÔL BOMIO MYNWENT

Dim clwydo hogiau heno, dim dogn ohono fan hyn.
Hed un llwyd cyn dydd a'n cicio o'n gwelyau pridd
i frecwast, ac ati; rhag ein bod ni heb gael ein cyfran o farw.
'Cymer hyn, cymer hyn, heno i'ch gwneud yn ddwbl rydd.'

Pa huno 'gaiff yr un ohonon-ni yn y fath arena?
Du yw'n hiwmor: dyma atgyfodi'r meirw'n farw.
Heuir ein hesgyrn yn gynhaeaf, heb un amdo gwyn yn waedlin
i'w hysgwyd yn ddi-goch o flaen rhuthr Cytser y Tarw.

Heno cadd côr ohonon-ni ar y mwyaf o felyn dangnefedd;
wedi amharchu'r mwydon syrffedason-ni ar roi deiet mor ddi-hud
o hyd, 'ddôl i ladd y cladd. Ai undon fydd inni'r dioddef
o'r fath loddesta o bendro bwl hyd ben-draw'r byd?

Deg a thrigain o aeafau a fwytawyd wedyn. Epleswyd blawd hedd;
ond oeda byth dorf o fwganod can 'fyn besgi ar ein bedd.

2011

II. OLWYNION CATRIN (Caerdydd)

[Ffrind a adnabuaswn yn nosbarth y babanod oedd Catrin]

Nyni yw'r popian. Dau grwt yw'r antur ffrwydrion.
Yma mae hi'n sbri i'r ifainc. Yma mae'n ras
ar ôl chwarae seiren 'Yn glir!', yma y fforiwn
drwy'r dre am un y bore i hel tai tân.

Chwenychwn beryg. Sychedwn am danchwa achlân
i'r llygaid sy bellach ar led hyd eu boliau bras.
'Nos da dân gwyllt!' a'r oedolion wedi'i pharatoi'n
arddangosfa dlos. Y nos ei hun heno sy'n troi'n
Olwyn Gatrion allwn-ni-byth-gael-digon. Ein ffawd
hapus sy'n guto-ffowcio o ddarganfod un ac wedyn y llall,
yna dau... nes o'r diwedd y cladda'r lleuad angall
ei threm rhag plant mewn seilam... a nyni yn sydyn

wedi camosod hwyl... darganfyddwn chwyrlïo tŷ Catrin
a'n sobra â'r cylch lloer chwil-loes 'droes fun yn furddun.

BYGWTH DERW PEN-Y-BONT

Cewri o harddwch ydynt,
cewri mewdol llon,
a'u dannedd frigau wrth eu bodd
tan lyncu fy naear bron.

Dere, fy mechan, drwy'r derw
i gylchu mewn prennau gwên.
Darllena ddail eu hunan-
gofiant, ysgafnder llên.

Sibrydant: sgwennant yn boblogaidd
â'u ceinciau bob yr un,
ac anadliad olaf eu stori'n
bendramwnwgl arna-i'n glên.

Ond dw i'n methu mwy â darllen
danynt heb glywed eu brown
yn droi chwil o fodrwyau
gan ffugio bod eu grawn

(yn ysbrydol dw i'n ei feddwl)
o eiriau-ddeiliog glew
yn ddeifiol hydrefol am ddeudroed,
wedi diferu difyrion glaw.

Wedi cwmp mi rythmwyd eu rhamant
am ein llawnfyd 'ddaw yn nes
i'w heth. Cofleidia'u dagrau
yn gyfarchol frown fy ngwres.

A chrynodd brownder oblegid
dy lygaid... Blesais dy liw
yn eu dail, fy nghariad, mewn rhisglen
a'm hatgoffai ormod am fyw.

CAMRE CARBON

(i) ÔL TROED Y DDAEAR

Caniad I: Cynllwynio Dialedd ym Mhwll Troed-y-rhiw

(i)

Bu du i mi yn dad.

Du tynnu-du fu du: fe'th dynnwyd 'nhad o'r du
yn gyw go swil. A dof i'th gofio obry'n dwll,
fy ngolau cynnar. Bu
pallu ar y pwll, a'r du'n oedi yno'n gry'
heb gwneu dim: y marw
a geisiai fygu dy gymeriad, gydag angau
i'n henwlad... Ac eto, i mi, dy ddu fu'n olau.

A'r lle y dewisai f'awen shinco
ei siafftiau gwaedlyd dro
i geisio rhatach golud gan odlau chwyslyd di-dôn,
bu 'nhad yn torri glo
am ddim fel y câi had o'r un
llinach, mewn llonydd ddeintio cân, ac i'm cân
gaffael grym o'i grymu... 'Cana hi,' plediai yntau noson.

(ii)

Ond rhan fyddai 'nghân o'r rheg
nas melyswyd mewn chwarae teg.
Dristed fu'i dair ar ddeg,
ac eto,
trawsffurfiwyd glo, trawsffurfiwyd
dŵch ei nerfdy gan atgo
i sgleinio. Trawsffurfiwyd fy nhad o'i grud
ac isod, dywedwyd wrtho, 'rhofia, pala â dwylo gwifredig.'

Mae'i luwch e'n para i hidlo
i'm llygaid, i'm hysigo. Bu hyd yn oed
ei sifft dydd e'n sifft nos, oblegid
ei breswyllo dan lo. Ac eto,
troid y düwch yn harddwch sy'n hyrddio
ac yn gorddio cerdd a fu rhyngddo
a mi'n gerdd ffri dan domen
lid — honno'n blentyn yno.

(iii)

Du tynnu-du fu du:

Maen nhw wedi cwnnu'i dda o'i ddaear gan adael du.
A hyn yw co'. Cans fry fe dynnwyd deunydd tŷ,
o'r ddaear (a'i siaced fraith)
y boen o benydau lu
yn ffrwyth mewn dram, a gloes
cynaeafau bedd, heb ond dianc mewn cytglo einioes.

Y ddaear ddiymadael

a du 'ddisgwyliai mewn dyfnder obry,
meini tawel
y mannau tywyll, a'r gefynnau gwag o fannau
fel gramadeg dirgelaidd didraha: ei nod hi — ysgrifennu
dialedd ar nenfwd i ddathlu... amddifadiad
mor ysgafn ag enfys yn pwyso'i dasau o dusw ar amrannau'r gwllith.

(iv)

A dwn fyddai'i deunydd; a do,
carthodd o'i chalon ddiflino ddiflaniad
a ymlwybrai drwy ystyr 'glo'.
Adeiladau'r crwt ei dŷ mewn du, o dyfiant Ebrill cynfyd,

tan dynnu'i du-mewn caled, i 'lan yn ôl i'r wybren luoswlad;
felly y rhoddai ruddin yn ôl ymlaen i'w fro,
yn ddandi syfrdandod,

tan roi cartref i fyw a'i fyd,
tan simneio geiriau fflam a fwriadesid
i yngan croeso
i anhap rhwyd-racs bwyd a llyn.

Mynnai dynnu'i felltith o falltod yn swp o fendith syn,
nes mewn du yn anad unlle y ffrwythai'i fawl yn lledwyn.

(Canys tu mewn i'r glo

yn huno

ceid dail a

chwilerod drwyddynt

yn hongian wrth sipian

a'r pryfed

a'u pelydrau'n

blasu tân

a adeiladai sail yn sylwedd i'w gwe-gopyn hwy o gân.)

Caniad II: Bod yn fwy nag ydoedd

(i)

Os du fu tafod ein daer,

du fynegiant a ddylid ohoni.

Du fu pob asbri, a do, tiwniodd i'r nenfro gno'i

ddialedd. Ond du glân fu'r glo, a'i glog

dros glogwyni'n felfed, ond cyfog

a sleifiai ar hyd leflau cyflog, a dogn i fotasau, drwy lygaid dygn

i aelwyd ysgafala ysgyfaint.

Ac allan. Chwant 'fu gan 'nhad i gynt
i rywun o'i ach ruo si
am ei ysfa hunanglwyf am grasu,
am yr hiraeth drwy ddrych o lewych gwyl,
mi straeniai boeri cyfalafiaeth ddolur
a ddô i bardduo llafur a'i gur
a rafiai yn ei ddannedd bob Sul, drwy'i hendre'n gandryll.

(ii)

Aeth y glo, drwch caeth
canrifoedd, i byncio'i ffansïon yn gudd
mewn ysgyrion o negro a dwriai
am dôn danllyd, ac yno mae'n dadlaith
calonnau. Yn wrth-egr i loergan dy lais
fe rôi Cyfalafwr fry
(y Dandi dandin tei-dwt drobll hwnnw)
iti ganeuon gwaith o swrealaeth ffraeth,
drwy dwneli isymwybod amaeth...A heddiw tua'm tad o negro
y llwythaf i'r dram hyn o draethiad:

'Tair egwyddor gynt a wyddet
yn sgrifenedig ar fwrdd du'r nen
yn delyneg ar dudalennau'r awel pan deloret
ledled bro. Mor ysgawn yr aet
a'u rhynnu
gan neges wisgi dros eu hesgyrn du
eto heb feddwi am na sarhad na serch
na chwaith yr un chwaeth at suro.

(iii)

'Codai'r tw' gynt a gleddid,

i byncio *cyfiawnder, gostyngeiddrwydd, gobaith*
yn ddail tafol clên wrth ddolur.

A'r tair haniaeth hyn yn y nen uwch hwteri
a gyfeiliai i'r glo dy foli.

Fel yna caethwaith 'nhad a'i gwnaeth yn wŕ.
Ac ni chafodd angau mo'i berclwyd
arnat heb brofi'r un pryd gymhares,

ac ni châi clust yr haul
golli'r clod pan ddringast i fod, ger y forwyn lle yr heuid yr haf
a hufen ei grudd iti'n nod, a'r yfed ynddi'n gwrido'n ddu.
Lle bu'r glo a hidlai'n llipryn,
tydi hefyd a genhedlai oleuni
yn nod y buost ti, 'nhad, fel pawb,
yn fwy o beth mwdredd ynddo nag roet ti.'

(A'r tu mewn i'r glo
yn huno
ceid y gwaed,
eigionau ohono
yn torfforio tros y tir
mor llydan â barn, mwy hyder na hadau,
i byncio'n araf drwy galonnau carreg
am nad mewn ffrwydrad y pryn byd bopeth i ddigwydd yr un pryd.)

Caniad III: Y glo sy drosom

(i)

Du llusosi-du yw du: buon nhw wrthi'n tynnu'r glo
o'r ddaear gan adael du.

A hyn yw co'. Ond fry fe saf i dan ei do
a'i jini wedi'i dynnu

o'i botel gan golli'i blwy'.
Mae'r glo a gloddiwyd danom am daenu amdanom mwy.
Bu'r du hwn i dad yn dorf.

I le'r gofodau mi dynnid hwnyma gerfydd gwar
a'i ollwng, dim ond du
a gwreichion gwyrach mewn cigfrain lu
'odrai bill o'r boreau tar
i'w sgrifellu ar wybren ddadrith
yn llofnod dyhead anwar
gyfiawnder, gostyngeiddrwydd, gobaith.

A'r geiriau hyn yn ffyn baglau uwch ein pen
yw'r carbon sy'n cerdded y nen.
Mi gariwyd y glo yn glyd
a'i gyfrinach strach am y byd,
fel afal Eden a gwympodd Ddeddf. Afal Newton a'i gwyddorai'n ddeddf:
mwy yw pob peth nag y'i gwelwn. A'r glowyr a adwaenwn gynt
ni allent er lleied yn y golwg
lai na thynnu at ei gilydd i'w hynt.

(ii)

Canys gwarth a godwyd i'r nen yw'r coed sy'n awr yn garthen
wedi gorchuddio'r glob obry, ac yn ôl
dros liw dynoliaeth
tan gynhesu dialedd eu colur
a thynnu pob peth uwch i lawr, ledled eu bedd bendigaidd:
felly y dathlent ddisgyrchiant.
A murmurai un talp a fu'n
rwto'n erbyn telpyn arall
am angerddau y llofrudd

llafur. Wrth gelu'n erbyn ei gilydd
cyneuent nwyd am neidio'n fwy cyfrwys, a'u harllwys yn guwch uwch byd.

Ac oddi tan wawr ysy'n awr yn iselrech,
nwy o goed, a'i ynni gwag a'i cyfyd.
Drwy'u daeareg negro — un dydd ffôl —
fe fwstrai, ar ei chefn, newydd feistr.
Ac ar adenydd perchen codai'r Dyfodol
i ddiffeithio'r ffeithiau, yn fawdd
dros lannau môr,
dros y llannau tir, y llygredd daflegryn hwn,
Hwnnw yw'r angel fry a fu
yn du-siffrwd cyfrinachau
am arglwyddi na fuont ddoeth i gyd
ac am dranc eu llwnc i'r llanciau, gyda'r gwanc a welwai eu bryd.

(A'r tu mewn o hyd i'r glo
yn huno
ceid deffro, nid buddugoliaeth sgrech,
nid utgorn croch,
nac awdurdodau crach
ond deffro caniad chwiler drwy'r dyffryn,
a minnau wedi myned
yn gasglwr piwus i'm llys gymylau.)

(iii)

Y du 'rôi gartref fry
i fyfyr tad, drwy droi'i seler yn dŷ
lle y noddid dril; â'i aing a'i darad crwt
mi gasglai feddwl carbon mai tywyll oedd y gwyll ym ni.
Mewn arfogaeth fywoliaeth yn erbyn

lladd, llefarai had y cladd:
hofranai'i gân ar gefn adenydd coed hyd baradwys parêd-ddwys nwyfre.

Ond y gerdd ddu 'ddysg i ni fod dyn
yn amgen na marchnad rydd,
a thipyn gwaed, lle bu du dad
yn cymysgu
tanwydd o grwt
yn addewid o'r parddu tan awdl gwlad o feini
taeog uwch rhan ei fannau tywyll.

(iv)

O! 'nhad, gynllwyniwr carbon,
gydyrrwr cerbyd gwanc,
yn d'anwybod yr aeth tranc dyfnder d'entrych llanc i gywain gwae.
Heno, nid ti, y plymiwr crin,
fu'n hel yn goeg am glustiau'r byd,
ond mab y carbon mud sy'n hedfan baner rydd uwch Dydd di-Frawd;
heno nyhi a wŷyr ddifrawdwr,
frodyr, benceirddiaid gwanc a gasgla, yn wala o wylo,
heb ei ddymuno, a drefnodd stanc
i lanciau ledled Cread,
yn ddu hy heno o ddyhead.

I ni y pesychi Faddeuant, yn ddysg lân o'r Wybren Wen,
yn Farn ddilead. Cripia cysgod i sarnu Haul.
Try plastai trachwant yn ddinas-sawriaid,
a'r ôl-troed yn draffyrdd triphlyg.
Rhoes waliau'r pwll ffiniau i fydysawd,
tuchanasant
nes bwrstio'n cyrff ni'n ddrewdod barn.

(A goddef gweddi 'nhad gynt ddôï'n rheidrwydd rhwydd i ni,
a'i fywoliaeth yn faw. Ni fu dialedd. Ond mae Gwyn

Gyfiawnder Haul drwy gyfleustra du, wrthi'n tynnu-chwysu
i ogof ein cyd-Dad.)

'Cana,' meddai fe. A chonais.

[Nodyn: du tynnu du= du minws du]

PORTREAD O LANHÄWR-STRYDOEDD GWIRFODDOL

1

Mi adwaen ambell fenyw mor ecsentrig
sy'n sgut am dynnu'i hesgidiau wrth fentro i'r tŷ...

Ond i hwn, ers talwm beunydd, ar bob rhyw dywydd,
roedd fel pe tynnai'i esgidiau cyn troi i'r stryd,
bob stryd. O ddydd tan nos yn ddiraid ddibaid
hyd gread 'ddylai fod yn ddelach na gwyrdd,
mewn agennau nas gwelai neb, yn ei stad hardd,
â'i ben i lawr, chwynnai hen galedrwydd o ardd

cyn troi tuag adref ac ailwisgo'i esgidiau... Drannoeth
cyfeiriai droed, pen, ysgwydd eto at wladwriaeth
amgen. Mi âi'i gyhyrau yn eu hól fel plismyn iach.
Mor loyw fyddai wyneb pob stryd nes y medrid
bwyta oddi arni. Heb bledio-salwch-byth-o-swydd,
galwai eu cofrestr. Roedd presenoldeb yn llenwi'i sach
â strydoedd caboledig oblegid bod ganddyn nhw'r fath
athro iach a chwenychai drochi'u trwynau mewn bath.

2

Un dyn a adwaenwn a symudai ar hyd un stryd
beunydd ag un dymuniad. A galwai aidd ei goluddyn
am lendid yn un cyfandod. Roedd bodiau'r byd
yn ubain ei ben am ddihalogrwydd. Un ffŵl oedd
fel pe buasai'n gyfrifol am holl sbwrielau'r glob.
Golchai ef gwteri â'i dagrau. Ac yn un plyg
glanhâi balmentydd, tan wingo ar bob tro, bob
torri'i galon. Fel llofrudd rhwtai'i ddwylo;
dan waelod ei gefnfor plastig: tywelau tymp,

buniau, bagiau baw ci, yr holl ddawnusrwydd yno,
ynddo, drosto, tano. Caledu a wnaethwn innau
ers rhai aeonau. Goddefwr fyswn i ar ffens
drwy domennydd... Efô, caledu? Byth, nis gwnâi.
Ond oblegid ei obaith ces innau gydwybod hewl.
Ym mryd y sborion eu hun, bu hwn yn fraw
i mi, crynai fy mhwyll o'i glywed yn gyhuddiad draw.

3

O'i isymwybod sgubai bobol. Oni hwylient er drwg
rhag stŵr y glanhäwr da, rhag agor gwg?
Hwynt-hwy a waharddai'r harddu. Hwy 'fentra'i' farnu
â'u buchedd reg. Crechwenent yng nghorneli'u crach.
Doedd neb mor brydferth â'r gwirionyn recsyn hwn,
y brawd a ddirnadai nâd y bydysawd crwn.

Un bore, diflannodd ei fyd. Yn ddisyfyd aeth.
Ymadawodd ei bresen. Tybid bod rhywun di-staen
wedi'i hwpo mewn cwdyn plastig. Disgynnodd egwyl
o fygwth budreddi rhwth, bu'r strydoedd yn llefain,
yn udo am un cip drachefn ohono...A daeth, –
do – brynhawn go lawn o nenfwd drachefn, yn glwtyn
llawr. Fe'i rholiasid yn gymharol ysbrydol ei rith i'r fei
yn smotyn di-wên o'r nen, wele – a gredwn? – efô,
wrthi'n dila ffres yn erbyn y dilyw, y ffôl
yn y golwg. Hwnyma a alwai ryw lendid yn ei ôl.

4

Ble bu? A fuasai'i fryd ar hyd strydoedd uwch
lle y câi eu moli mewn gynau, glân i gyd.
A welsai ynghudd, y tu ôl i'r stryd galed, siâp

lôn a allai fod yn ffurf las ar ddinas anwel?
Yn ei ysbryd y trechsid gelyn. Bu'n harwr yn olau.

O leiaf, i'n sgwâr ddi'n ôl. Stwmpyn o sigâr 'dddi iddo'n
orfoledd; fel greal, y can a gwnnai chwap.
Fe godai (pes gwelsai) ddyn, a'i ollwng i fûn.
Anwesu cwteri oedd ei Eldorado gron. A rhan
Casanofa traeniau a chwaraeai. Dadroliai i ffwrdd
o'r nen ei llen o aflendid. Cilchwarddai palmentydd.
Daeth hwn â'i nod i ail-wastatáu'r planedau,
cyn neidio obry adref i ddy; wedi adennill esgidiau.

PORTREAD O YSTADEGYN

Pam y bydd hon heb smic yn y bws ar y sêd
o'm blaen yn rhy ddwfn i'w forthwyllo o'i chylla
difesur? Gynnau aeth ei rig hi'n bistonau
dagrau di-sŵn, a chwyrlïodd
ei llwnc drwy'i llygaid;
pwmiodd ei chof o sêd i sêd wedi'i dagu;
ond ei gythau heb darfu o gwbl ar bobl daeog dawel.
Pam y fath fethu arddangos gan deithwraig reolaidd
golli un nad oedd yno mwy i sylwi arno?

Dim ond hwn fu. Ystadegydd i'r Cyngor yn yr Adran
Garthffosydd. Ac felly ni ddisgwylid o bosib
namyn caru mân, caru a bwrcesid fel arfer
ym Marks a Spencer
rywle yn y rhesi gwyrddion
o gotiau glaw. Distadl fu hwnnw druan,
yn broffesiynol yn y cyflwr a weddai
i damaid o swydd sy'n ddigrif-bwysig
wrth ddesg, a'i drwyn yn llond hydref o ddalennau.

A hithau'n fwy cyfartal na neb dan rod,
un oedd hi megis pob camddeall arall mewn llif
a'i hamgylchai. Yr hi hon hy mor falch
i'w drafod, fel gwryw
a wyddai ei safle.
Hyhi a'i gwallt a'i bronnau'n llywodraethu
yn ben ar ddod, yn ben ar ambell fynd
gan hwn a lanwai lai na ffeil mewn tipyn buchedd.

Pam lai felly? Diau nad oedd yna ddim esboniad
yn eu swildod, ac nad nhw'u hunain a'i dirnadai chwaith.
Oherwydd hwn, rywbyrd a'i anniddordeb ar gynnydd,
a guddiwyd mewn rhwyd —
a'i glwydo yn ei gwe,
a'i chof hi'n hedfan gyda hwn dros dwyni
esgyrn, yn bili-pala ei gwala, hwynt-hwy ar frig
yn syfrdan o benrhydd a wnaed yn 'ni', oherwydd
iddynt drwco'u calonnau yn agos i ben y mynydd.

Eithr ar waelod y llethrau isod y crwydrai'r haid
odinebwyr o'u deutu, a'u llygaid o waedlyd gig
yn ubain 'unig, unig!' heb hwrê falch
gan hwn. Canys bu hwn yn swyddog
manwl ar ben y mynydd,
yn deigr mewn caredigrwydd wrth ei ffeil feunyddiol
o funud i funud au nas gwelai hi — ble?
— dychmygai hi hwn ym mhobman. Ac oblegid
hynyna o dawelychau a gelasant, hwn yn ei le

A sieciai'r ystadegau yn gywirach na neb,
trafodai well archebion, cadwai gyfrif mwy cryno
o'r diddim tal lle y gwybu orawen real
carthffos ac afiaith
uwch ffurflenni'r llanw. A
rhagorai'n syml oherwydd adladd y parch
a gadd gan honacw o weld hwn beunydd mor anwel,
a rhywfodd mor gwbl brydferth â chofnodion,
cof ei nodion a gadwai hi'r awron iddo'n gofadail.

A'r pam fu eu priodas, nid hwynt-hwy a'i gwnaethai,

plygasai hi gan bwyll i'w blyg, a hwn yn hen iddi hi.
O'u hamgylch heb sylwi bod y ddau bach hyn
ar gael a heb wybod
owns o'u cyfrinach fod,
ymfalchiasai'r Ardal oll, yn ei hiselderau
(gyda'r math o gof, nad yw, oedd yn crafu anghofio),
yn y fath garthffosydd tlws, fel clychau del eu 'ni',
er nad pob priodas sy'n ymddwyn mor ddefnyddiol.

PORTREAD O WRAIG A GASGLAI GŴN

Dilornai'r llanciau y ladi,
y wrach wahanol dlawd,
a wnawd yn aelwyd i gleifion
drwy gyfri pob ci'n frawd,
yn frawd a lynai 'lan wrthi
heb weld namyn gast a gas
ei chicio'n ail iddo yntau
ond a'i gwnaeth ei hun iddo'n blas,

yn aelwyd i sbonc ac i ielpian
ei theulu. Troi ati fu hwyl
a ddifyrrai hogiau'r gymdogaeth
i hyrddio detholeiriau'n wyl
at ei hallor fel cerrig. Ciliai
ei chefn i lyfu ei briw.
Ei byw a glywir drwy'i ffenest
er mai cyd-udo tawel yw.

Canys arteithiwyd y wrach gan furmur,
cydbrofaï un tro droad ci:
curid ei hesgyrn yn ddagrau
a'i hysu gan fydysawd o gri:
ynddo troesai'i chôl chwap yn goledd.
Ond yn drymach dros erlidwyr byd
mi ffrydiai'i maddeuant at egin
a gnöwyd gan rew yn y crud:

gwyrdröedig wanc gan laslanciau,
tosturiai atynt yn ddi-ffws.

Does neb a'i gwahoddai i'w annedd,
tyrchwraig nas heliwyd ar frws.
Rhwng cŵn a brain yn ei thrigfan,
'dyw ei hurddas mewn syrcais o sŵn,
'dyw ei chynffon na'i chariad at gipial
ddim yn werth ond eu lluchio i'r cŵn.

Yn un â'r cŵn, syll i lygaid
y bechgyn, â'i chyfarth a'i chwt,
fel y gwaeda hi'i thu mewn newynog
i lygaid pob cenau twt.
Mor glwm yw'r bychain â'i chryndod.
A'i gras yw'r cysur i'w grŵn
a leda hi'n ladi amdanom
gan fod cynifer ohonom yn gŵn.

Fe gwonna'i haflendid o glwtyn
i'w daenu am aflendid o glwy.
A chyffyrdda'i gwefusau ag archoll
go erchyll ar unwaith (neu ddwy).
Ac felly i gŵn ac i hogiau
y rhydd hi'i blynyddoedd. Mae'r byd
bob cornel mor dra archolladwy
â'n hangen amdani o hyd.

PORTREAD O PAUL

I

Ar y llawr un waith,
ar y llawr lawer tro,
dwylo 'lan yn yr awyr,
gwadnau 'lan. A'r goleuni,
y dim-ond oleuni,
y goleuni a berthyn
i bob man yr un pryd,
yn gyfan o'r ymennydd, a'r gwan
yn gweini i'r halen —
o'r llwch, i'r haul. Yn y man

llais, a oedd o'r glanaf (fel y myn
goleuni), a phedolau'r
stalwyn 'lan yn syfrdan. Cariadus
yw'r gweld diffodd du drwy'r gweld
wal o olau'n ei fyddaru'n wyn,
saethwyd y ceffyl dewr i'r awyr
fel pe bai'n siel wedi ffrwydro'i garnau,
hwinnw'n gwehyru i sydynrwydd
o achos gweld clais Ei lais a luniwyd
o'r gwyachaf Ar-dân a gaed.

II

Dim ond perthyn a ddigwyddasai,
hwn, un waith, lawer tro,
o'r cwmpau i'r Cwmp
yn wastad yno'n ymestyn,
beth a allai'i enaid dall
ar ei wyneb ei wneud ar lawr

ond cyrchu â Hwnnw nawr — dim is —
at y llwch aliwn na wyddai
ddim am luchio'r hen Gwyp
nes gweld peth o losgberth berthyn?

Dwedwyd wrtho beth a wnâi
yno: câi anelu am anialwch
i ogofeydd cacti'i ymennydd.
Unig lecyn drwy'n byd nad oedd
am addoli dyn oedd meddwl Duw...
A'r dwyreinwynt! Tyrchai'n
bla tuag yno am ei blygu
o dan ias o wyndra daran
i fod yn anwyledig wastad.

III

A gwêl mor gêl y gelyn Saul
ar chwâl yn anial ei einioes.
Yr hyn na fu, hynny a fyn ef mwy.
Cyrcha, chwilenna Paul
rhag hyn drwy dwnnel o ddyn
lle y geill hyll ei gollu'i hun.
Cyrcha'r blaen lle nad oes 'yn ôl.'
Hyn, cred di fi, yw'r perthyn.
Ni adewir uwch ei dywydd
yr un twll heb ei dywyllwch
o fod heb fyw,... heb fyd,
ond yn caru bod yn wastad.

Ble felly yr anadla? Ai dihangfa
o fath yw awyr? Yno tyrcha'n

daer ynni o fewn dwyreiniwynt,
i feddalu'i feddyliau
yn erbyn Craig o Oleuni.

Sut ar raddfa Richter y mesurai'i
grynfa storm o weld? Pedair blynedd
ar ddeg o wynt tywod go gwta
i amgyffred croes 'droes Israel
anadl yn Israel ysbryd iddo.
Safodd ar groesffordd fellt
hwnt i anweledigrwydd byw
a droes fyd bach yn fach i'w hongian
arno, gan hwrdd a gyhoeddai'i gyhuddiad.

IV

Mesurai'r genedl galon y gorwel,
fe'i gwasgwyd i'r llawr yn estyniad
o Israel waed i Israel galon
drwy anaf y Gwaed o'r nefoedd
a gaed i aeafu plant gwaed
mewn Cwmp a ddofai'i eglwys
o genedl i ymostwng i'r byd oll,
drwy uno Cyfamod Deddf â
Chyfamod Rhoi Myrdd o Lendidau.
Dyna sianel i'w eleffant-ddeall
gario i'w wâl y fath greal o gread.

A'r fath Dad!

‘Mwy yw'r drugaredd
ynot Ti na'r pechod ynof i...
Tref-tad hyd fy nannedd fu

gennyt gynnig i wan ei annedd.

Derbyn wast, O! Dad pob gwastadedd.'

PORTREAD O FOD A OEDD YNO

Sawl gwaith mewn oes o noson, mae a wnelo popeth –
Ar y ffôn, ar fin ffordd – â bod bob amser ar gael.

Ai oherwydd euogrwydd? Ddim o raid, er bod llawer
Ar ôl i'r ddyletswydd honno – o fod yno.

Ai cyfartaledd yw? 'Amhosib. Pwy wyt ti'n 'feddwl
Ydw i? Menyw? Bricsen? Fformiwla?... Dim?'

Debyg iawn. Ond rhyw ymdebygi hefyd. Yn nhin
Y sach a wrthodir gan bawb, mi gest ti o bosib

Ganddo dosturi. 'Byddai hynny'n nawddogol.' Eto,
Mae angen y medr hwnnw ar bob ing meidrol.

Undod? Yn bendant, mewn sach, ar lawr bob man.
Felly doeddet ti ddim yn d'ystryied dy hun yn ddawnus.

Eto, roedd yna rai adegau pryd y profet gyda'r anghenus
Na fedret udo ond am gyd-berthyn i ddimbydrwydd,

Heb ond hongian gydag ef yn wag ar draws y gwag
A chyd-rythu, rhythu, rhythu, rhythu... gyda'ch gilydd.

Felly roedd gen ti'r un ddawn eiddil hylif hon
Ar adeg isel-unig, o fod yno. Roedd hynna'n bopeth.

PORTREAD O WRAIG A GAMDRINIWYD

I

Beth 'ddwedais i? Pa air?
Dim ond clwyfo clai'r
orau un, ar ras am jôc mor ddel,
wedi damsiel arni hi,
(Gelert wrth y drws)
taranfoltt ar draws ymddiddan tlws
yn ffŵl o smala, fi.

Mae ei chysgod imi'n gi teyrngar
a gyfartha er mwyn fy nghanlyn.
Droeon rhed hi'n gylch heb byth
fy nghnoi. Wrth brancio chwarae gofal,
a finnau hefyd yn gi llai, mathrai
fy mhawen ar ei chysgod chwareus
heb-sylwi ar ddolur yr eithafol hi.

II

O'r herwydd fi, nid hi a gofiai.
Y tro diwethaf yr edrychid
bu ei chysgod hi yn y fan 'na.
Bûm yn chwilenna amdano hefyd.
Weithiau bu ganddi, sy'n un,
dri chysgod, y naill yn welw
a dau yn olau. A fu gair
i gariad-ddyn gamu'n
llac ar ddelw'r un mewn llaid?

Pwy a edwyn rolyn ci
lle rhois fy sawdl i sengi
ar gysgod tan fy nghleisio
i fy hun? Tolch o waedlin
yw'i phlyg ffyddlon wedi i mi
luchio'i bod i'r bûn, a hon
wedi'i fflangellu, o fref
i fref ddi-sŵn, mewn carthion.

III

Medd rhywrai'n llon, 'dyna'i wynfyd.'
Gormodiaith? Prin mai ychydig yw
balchder gair. A sylwa'r pothell ar gi?
Ar faldod ysmaldod o chwiw?
Gwneir, ond mwy byth y bu'n
ddraenen yn cystwyo clun brenhines briw.
Llythrennol wingai'r llygaid, eiliad,
fel petaent yn grud i Gelert
yn siglo pen di-baid dan wên anwylyd.

Gymaint ei chlais o air, fy nghysgod triw,
pan sangai'r sŵn llais yn glep
ar glust luniaidd cragen
i berl drud, megis fy lladd fy hun.
Mewn mwgwd daeth ati hi
fy hagrwech i balu ynnddi dwll
gymaint fy chwithdod. Ond ces
— gan ffraethair a anghofiodd hi —
ynof fy hun un llesol i'w lofruddio.

IV

Bydd y lleuad yn deall, fel y myn nos,
beth sy'n darfod gan mai'r gwawl —
pan â hi'n dywyll arnom,—
ei hun yw'i chysgod disylwi.
A'r cysgod gwirion yw'i goleuddydd fry
a lyfa'n gu garuaidd f'esgidiau.
Beth ddwedais i? Dim ond
pob sathr o beidio â gweld.

Ac yr wyf wrthi'n twrian am
ryw ysgyrion o gysgod wedi
colli'r sylwedd, heb sylwi i'r heulwen
a'i rheolau yn ddrylliau ddal ati'n
hael o helaeth,

am y maddeuai'r
hwylus o eiliad. A'r maddau hwn
mor ingol angof o gysgod.

PORTREAD O DYWYSOG A FU'N BYW MEWN LLYN

1.

Drannoeth ym Monnington druenus, syll Owain i'w lawnt,
yn ddyn a oedasai ddoe'n hyll uwch llyn Syfaddan
ac yno a ganfu gysgodion
penhwyaid a sgretenod
yn smotiau o wahanol ymatal, o wahanol ddi-ddal
yn ysgwyd yn sarhaus gysgod o'i wyneb ei hun mewn lawnt.

Didrugaredd yw llyn. Ysa ddelweddau'i wep. Ond lawnt,
does neb yn disgwyl i honno draflyncu fawr
o'n cyni. Ni chyfyd mwg
o'i glaswellt gwlyb.

Yn llonydd wâr o'i blaen, bu'n gwahodd pysgod saff
ac yna'n eu treulio, heb esgor ond ar esgyrn ar nawf.

2.

'Mewn undod (heb amrywiaeth) y mae nerth,'
murmurai'r lefiathan Sais; a'r llais a wnâi rai'n glyd.

Undeb mewn crair concweredig
yw cloddio fflach mewn llyn
drwy fyfyr gwib i oleuo, hyd ei dwannel, weddill byd,
fel gïau'n llacio ger lawnt. Gostyngai hwnnw ei nod

rhag bod yn Rhywun ym mhwill canrifoedd. Llais llym
ei forfil wrth Jona: 'Onid gwell inni fod yn un
na dau?' 'Yn siŵr, gwell na dim.'

'Fi hefyd yw'r "dim"!'

'A yw "dim" yn air?' 'Digon i lyncwr llwm!'

'Onid "dim" yw darfod?' 'Dim ond y byw sy'n gallu'i wneud.'

3.

Ond nid ef yn unig. Bu eraill efo ef dan lyn.
Cwmwl enbyd yn un peth. Eithr ciliodd hwnnw eiliedyn.
Mynydd digynnydd hefyd
yn siglo'n hyfryd
a'i liwiau'n waedlyd fel arfer; a'i wyneb yno'n ôd
o hyd yn ceisio gafaelyd yng nghanrifoedd llysywod.

Ond oedwn gyda'r aeon o fynydd — neu ynteu ai morfil? —
ger y lle y dôi adar Syfaddan i dwitian iddo
a diddanu'r ddinas honno
ar wyneb llyn, hwynt-hwy a hawntia
ei unigrwydd heddiw ger lawntiau Monnington
gyda'r mynydd-forfil a fu'n breferad am 'etifeddion'.

4.

Hynyna mewn lawnt lle y sudda'i lygaid mwy:
llwch y plas amserunig hwn, taena'r ednod rhydd
eu hadenydd fel nad amddifedir
cof ei wythiennau rhag proffwydo
am blant a phlant eu plant yn breferad adlewyrch yn dric.
Ysywaeth, ni lewyrchant ddigon iddo weld i weindio'r cloc.

Hwy mwy yw'r Cymry nas bachwyd sy'n braswenu arno
drwy lafrwyn heulwen, ysgyrion a theilchion arian
y disymud mawrhydig
o sgrechau tanddwr claeaf
megis aelodau tociedig, a'u tremiau marwanedig yn rhythu'n
ddirmyg nawf arno heddiw ar hyd ei annedwydd freuddwydion.

5.

‘Ti, ddŵr, ffynnon gwae, mi wn i aml i waith
yr hoffet dorsythu, fel petaet ti’n wrolach na’m hil,
o gylch ein lawnt
wedi’i fflawntio lond dy lyn.

Chwiliais eu hach drwy’r sêr. Weindiais eu llinyn mewn c’wilydd.
Mae’n syn bod gennyf lygaid o fath i weld pysgod ffydd.’

Cryn cannoedd o ‘amseroedd-gaeaf’ (clociau ’drowd yn eu hôl)
i’r criw dan y lawnt nad oedd yn-y-lle-yr-oedd-eisiau-byw.

Ond doedd dim mor unig grwn
â’r golau hwn ar wyneb
yr Amser cloff ’allai sefyll am byth bythoedd bron
yn unig o ing ar len canrifoedd lawnt ger Monnington.

6.

Dôl i ferch â gwydraid o win iddo. ‘Maen nhw i gyd yr un fath,
ferched, maen nhw’n tirioni meddyliau. Yn ôl i’w ffau
y’n llusgant i’n claddu.

Ond y gŵr, y gweithredwr o ffŵl
yn ôl yr â i ymosod yn ei ymennydd, yn ôl i’r hawnt
dan Syfaddan. Mor filain gynifer o filwyr sy’n teilio’i lawnt.’

Maldod heno fuasai holi mwyach beth ’ddaeth o’r smot
ohono ac o’r aeon hwnnw o gysgod. Beth? Ai dan lawnt
y nawf e’n forfil o hyd o hyd
heb hyder pryder yn y byd
ynteu a gaiff fwhwman gyda’i wlad yn ôl ac ymlaen ar daith
i’r llyn i weld amhosibilrwydd o adar yno’n cydganu, ar unwaith?

*[Dichon mai ym Monnington y treuliodd Glyndŵr ei flynyddoedd olaf. Am wybodaeth ynghylch llyn Syfaddan, yr ydys yn ddyledus i **Gerallt Gymro**, cyf. Thomas Jones, 32-35, yn enwedig y broffwydoliaeth, 'os digwydd i ddeddfol dywysog Cymru ddyfod at y llyn hwn, ac erchi ohono i'r adar ganu, y canant i gyd ar unwaith.']*

PORTREAD O FAM A DDALIODD EI THAFOD

Y tafod nas daliodd ef, fe'i daliodd hi
Rhwng dau, rhwng tri. Y drydedd absennol yw'r fwyaf
Presennol. Fe ddeffrôdd y drydedd pan ebychodd ef sbort
Am ben mam ei fam ef ei hun. Parheid yr ymgom
Twt-lol yn ddi-hid. Dim ond cybôl oedd y cwbl. Eto, buasai
Hi'n ddigon bodlon pes coegiasai ef amdani hi'i hun,
Neu amdano yntau'i hun. Cans cyfrifai'i fam ei mam yn famwlad
I beidio â sathru arni ag esgid esgud. Odanodd ymgydiai
Hithau am byth yn nhir ei mam. Ei gam ef fu gamu ar gof.

Hyn nis deallai ef. Nis deallai hithau ychwaith
Oni bai'i thipyn euogrwydd personol. Ni ddylsai ef ddiodef
Oblegid y baich edifar a gariai y sylwasai hi'n oediog
Arno, a fu oherwydd iddi hithau beidio ag yngan y clwm
Yn ddigonol wrth ei mam: y bwlch mewn perthyn fu'r niwed
Na fentrai hi'i fynegi, ac wrth beidio â'i ddweud, fe ddwedodd
Iddi dawlu sawl cyfle. Un hanes a geid drwy'r byd
A ddymunai gwesteion unigedd: a hynny bod i rywun, rhyw si
O berson, sy'n llechu, gyfri mewn anial enaid eu bod hwy rywsut

Yn rhywbeth. Acrobatedd nawr fuasai iddi hi ôl-ddweud
Am ei pheidio â dweud. Llenwir ein pennau gan ddodrefn o'r fath
Nas defnyddir. Mae'r holl dŷ wrth heneiddio'n llawn betheuach
Nas taflwyd, genynnau a bocsys. Am y rhelyw 'sdim ots. Geriach
A heliwyd mewn marchnad machlud, y dylsid ei thawlu.
Ond y drydedd, a'i pheidio mewn si oedd y stôl mewn cornel.
Rywfodd dyna'r un a atseiniai nawr pan fu e'n smala am ei mam
Fel pe bai wedi'i thawlu hi, a thawlu cân serch na fu
Mewn afalfreuant i dir go hardd gwaharddedig.

Y drydedd genhedlaeth fu'r esgus. Wrth ddod yn fam
Etifeddwyd math o anghof a aethai yn fuchedd
I ferch 'fagai'r fam 'fagai'r mab hwn tan ddiwydiant cyfrinach
Na ellir ar ddaear mo'i rhannu na'i chanu, na'i galw'n fi.
Beth wŷr wŷr, beth wŷr wŷres am ganghennau y tu maes
I'r ffenest yn ochain ar ganghennau eraill drwy nosau'r tu mewn
I nosau? A heddiw mor ddi-bwys fu'r pitw watwar gan grwt
Â'i lygaid mor dwt absennol mewn arall rywle. Ew!
Fe'i gwyddai hi. A hoffai pe buasai'i mam hithau nawr ar gael
I wybod ei bod heddiw, gyda'i mab, wedi dal ei thafod.

PORTREAD O BRYDYDDES O OES FICTORIA

Hyfryd efrydai'r gelfyddyd
a'r gyfrinach gél o ymgilio.
Gwyleiddiai hi drwy'r galon,
plygai hi wallt ei gornest.

Ond dysgai Christina'n gaeth-
forwyn i fod yn is
i Arall mewn blys ymguddio
dan wal-i-wal-i-waered.

Adwaenai fawrhydi'r gwir
a geir mewn gostwng clust:
yr eurfellt yn y fynwes
a fygai dan straen y trwst.

Fel Gwen, y grom athrylith
ar ôl Augustus, frawd sw'n,
felly'n ail dant i Dante.
'Ffynnon a gaewyd,' meddid.

A chenedl na châi anadlu
o lodes oedd hon, rhyw Waldo
o ysbryd heb y jôcs,
un o'r rhai bychain, trafael

a'i phen yn wyrad, pren
i'r dail. Coleddodd (fel bardd
i gerdd) yng ngwaelod ei sail
y tra diddiolch dda o hawlio 'ail'.

PORTREAD O WRAIG A DDIODDEFASAI O GANSER Y FRON

Y lleuadau nad ehedant ei dydd

yw urddas ei nos.

Y rhain yw'r creithiau a fysedda ef yn fwy esgynnol nag erioed.

Ymrithiant yn ddolen o adfeilion sy'n haelion iddo o hyd

o'i gylch yn gyd-geyrydd oherwydd eu gwneud i amddiffyn ei oed.

Canys hi yw hi o hyd. Dyd ef gledr

'fedr fod mor goleddus

tan iro tynerwch. Hi o hyd yw hyn o anoddun

i nyddu'r hyn a gâr ef. O! gwêl ef ei gyffyrddiad porthiannus

yn bwrstio ar y croen yn flodau i'w gofod gwyfyn.

Eto'n arafaid y sleifia ef

i harbwr mor siŵr i'w angori,

tan arnofio drosti'n wyndra gwreichion dan beryg gwanc.

Yno y pysgota ef heigiau. Canys mwynderau'r claf tyneraf

a'i gwna e'n fwrddsglefrwr hynafol drosti hi'n llanc

a ysgythra i fyny, a llithra'n fonedd

i lawr y llethrau llathr.

Dim ond ymgrymu 'fyn ef yno, yn fwynwr digartref:

cawsai ef o'r blaen yno aur a gloddiai ddoe i'r eigion

yn ddistaw eu rhodd, heddiw wrth fodd eu cyd-ddioddef.

Pa wyn yw'r bronnau hyn

y mae'n methu â chael eu hen ddigon?

Cefnforoedd serenog. Ble dylifant? Boddant hyn o ddeuddyn dynn

fel y seriwyd hwy'n rhagflas ynddynt, drwy ddeuddyn o lygaid

a gwefusau llewyg? Tyrd acw i lamu fry ar fryn,

di'r gwefrwr, oherwydd dy galon

ynddi'n pefrio, a frolia

mai yno mae Cariad-dan-gysgod sy'n gysgod o'r nef,

yn adlais i'w hodl, lle mae pêr-ochenaid eu hangerdd at ei gilydd

wrthi'n andras o ddad-amddifadu, yn llusgo hendro'i llunieidd-dra adref.

PORTREAD O HEN ENWAGEN THEATRAIDD

Mae'r actores a adwaenwn i gynt bellach yn wir —
hen wrachen faluriedig a hawntiedig ei dig.

Tu ôl i'r mwgwd pryd hynny ni chaed 'tu ôl'.

Ond yn ei ôl yr â'r blaen

mwyach, 'does na blaen nac ôl.

Drwy'r blynyddoedd y gwthiai hi ffuglen yn thema arnom,
rhewin yn awr, er na ddaw'r ymwelwyr fawr.

Er ei bod hi'n dal yn fyw mewn egwyl theatr
fel cofweinydd, mi ddaeth hi'n safle i archaeoleg.

Mae'n rhwyddach ei chanfod o'r awyr. Gellir dirnad lôn
yn amlinell drwyddi draw

cyn ei dirwyn di-lun

at odre'r cae. Yma, lle bu olion dawnsio,
paler, a gellir datgelu'r llawr ithfaen. Yr union fan
lleiaf digroeso yw'r tamaid tomen lle bu porth y ffrynt.

Yn llygod i ysgrafio'r domen, brysia pedwar llygad
gan ymchwilwyr. Ymholwn pa beth fu'r plisgyn fywyd.
Trwynwn bosibilrwydd cynifer o bethau — anniddorol
bob un —

ai cylllell oedd hyn — gegin neu gad?

Go iawn, ei bys oedd; ohoni fe'i cafwyd yn weddill
dan bawen costog. Dim traferth — buan y caiff archaeolegydd
ei atgynhyrchu'n llwnc neu'n ben-lin. — Syniwn o bosib

mai aur fu ei chnu — parablai Frythoneg — tafodiaith
y Berwyn — mae'n syn faint y gellir ei ddysgu gan fys.
Drwy'i hactio, nid heddiw mae'n serio ar ein gweld

ei rhan i'n hargyhoeddi

na cheir yr un chwarae triw.

Ni roddir cliw pa ddewrion 'fu'n llwfr o'i mewn
cyn mentro i'w tranc, pa brydydd a afradai fydr

am ei lludw crwydr. Gadaw-wyd hi yma i fod yn egwyl
yn yr unfed ganrif ar hugain, yn adlais o lances
ein mebyd. Heddiw ailadeiladwyd un a fu'n chwys
freuddwydio led y safle lle y bu hi yma gynt yn gae
meillion. Ac actio ein rhan

oll yn awr a wna.

Yn ei harchaeoleg fyw mewn ffurfwisg glai
cawn ein cyfrinach ddrych, a'i bys yng ngheg y costog
o jocôs, sy'n ei snwffian; a chyn ei gasglu, ei lyfu.

Hen ffrind: try'i hwyneb oll tua'r llawr ac ubain oblegid
ei cholli'i hun mewn ymwelwyr prin: ffy rhag y ffi.
Sgerbwd toredig, ystyllod o esgyrn mewn ffens
o amgylch ein tiriogaeth ni.

Delir i actio'i rhan gan ganrif

arall, a'r costog yn ei herlid o berfformiad i berfformiad
wedi tynnu'r llen ynghau. Eto, deil i lefaru ar ein rhan
yn seren i'r gwacter sêr, heb brin ddeffroi'i lledfyw gynulleidfa.

[*Nodyn*: enwagen: seléb fenywaidd; enwagyn: seléb gwrywaidd; enwagion o fri: selébs]

PORTREAD O THOMAS RADCLIFFE JONES 1864-1935

1.

‘Cusana.’ Eu siars! Bygythiai’u berf wlyb ferfaidd hon ei flew nas meistrolais erioed, yn ymarfer astrus hyd lwybr-coed unig na chanlynais erioed mo’i ramadeg. Ond clywais orchmynnol arall — ei waedd olaf wyllt — drwy’r farf a hongiai hyd ei draed:

‘O maddau imi ’ngwacter’ — erfyniad nerf go ddiorchymyn disyflyd o hil geirfa glaf, a gwich olaf fflwcs drwy’i locsyn. A hynny mewn cyd-destun o seintiau. Hyn oedd ei arch fel dafnau rhew o gwrw cryf ar y croen o gylch llygadach wŷr, ei edifeirwch mewn Cymraeg anefnyddiedig nas caed namyn rhyngddo a’i Grëwr, gyda syched sydyn untro am Waed.

2.

‘Cusana fe.’ Yr Heb-fod-yn-Siôn-Corn a heb un sach ar ei gefn, fy ach afiach, mewn eira serchiadau, a’i farf led anghynnes am wefusau gysylltair, clustfeiniais acw ar ei waedd o anhrefn.

Di, farf o arf i grwt! Nid adnabuaswn mo’th grair o graith daeog o’r blaen odani, na’th gywilydd di mewn iaith gywilydd, nac mewn ymgrymu gwyn, ar y llawr â’r Crist a’th glatsiai yng nghyswllt clun, mewn mynydd o glust a thithau’n sobor o sobr. Deisyfaist nawr iddo Yntau fod yn Siôn Corn cyfleus i rew d’enaidd ym mhreseb dy baid.

3.

‘Cusana.’ Drwy gaddug dy guddfa, cyrhaeddais dros dy fol y gwawl nas gwelwn, lle y criaist dan dap dy benydol lol o’r diwedd am faddeuant chwil. Fe’th chwiliais yn wag. Mewn pryd?

Gwaeddai dy flew, criai'r taogrwydd tew, yn ysgyrion crud
o oleuni anhaeddiannol fel gyda'r sawl a wŷr fawl
sy'n meddu o leiaf ar bigau tanddaearol feddwod y sawl
'fu mewn coedwig aeafol, ond a ddewisodd un pren. Ag un ergyd
olaf, dro, fe'i holltaist, gwelais ing y ceinciau yn ieuenctid
gwaed yn nhywyllwch dy ên. Ai lleidr ar ei groes fu 'nhad-cu
wedi sgythru'r eiliad olaf drwy'r eira â'i droseddwaith dwyn
i gipio wrth ddarfod un brigyn o dafod ei lwyn? Ai dweud a wnâi? -

4.

'Cusana'r Mab, fy mhlentyn. Â'th hedyn mwstard! Ar dy hyd!
A methai fy llais yng nghlais ei ddiflaniad byd.
Y funud olaf cas gusan, wedi oedi cyhyd:
Alla-i ddim cystadlu, Iôr enbyd, â'th annirnad gariad drud.

PORTREAD O GWALIA LI. JONES A'I DIWYDIANT YMWELWYR

Coesau? Digonedd. Yn hoeden gref y pawr
neu y porai tyrchod hyd ei hesgeiriau cawr,
ar lethrau o gorff yn dreuliedig hoff o chwarae ji-ji.

Un o'n diwydiannau gwledig yw. Busnes preifat,
fe'i hadeiladwyd yn breifat er nad dros ben felly,
nid yn ddigon preifat i wahardd arian Ewrob.

Bronnau? Gormodedd o beth. Bu'n rhaid tocio ambell bâr.
'Rÿm ni'n falch i gael anadlu,' meddent. 'A'i chenfaint
yn ddihysbydd fel chwys!' O nawmis i nawmis am oesoedd

bu hon yn ceisio colli'i phwysau. Wedyn
mewn Gadara o sir, a'i machlud yn llyncu'r wawr
bu'r pwysau'n dechrau gweld ei cholli hi.

Wyneb? Amazon fu, a'i haf yn hafal i aeaf
drwy ffenestri cyffuriau, a'i chyllau hyfforddedig
nobl yn canu fel gwastadedd ewyn bras

ei diwydrwydd cynhyrchiol hi. Heblaw pigo'i thrwyn,
erthyl fu a yrrai'n garlam tan sgrechain sgrwd
ar hyd coridorau'r ysbyty i lawr tuag at

y bûn sbwriel, er mwyn i'r fam-ddaear fun
reoli'i chorff ei hun. Ond na falier am bethan bach
doedd dim dwywaith na fu colli peth o'i sawr

ddim yn golli dim. A'i chalon? O'i phen-ôl y codai draw
yr un haul mwill fu'n palu twll sydd nawr yn ei lenwi;
yn wir, bu'n machlud beth wrth wawrio'n bowld.

At ei gilydd, adfeilion fu. Ni ddaw mwy ymwelwyr.
Dirgel yw'r trawstiau, cwmpasant i mewn i'w gwyll,
a chyfrin wyrdröedig braidd yw'i chwsmeriaid oll.

Ond ai preifat mwy yw'r holiadau nas offrymir? Nis clyw y crach.
Ni chynhyrchir tocynnau i'w gweld: eto, codwyd clwyd.
Ac ochneidiwyd rhyw ateb ganddi... er nad heb gwestiwn ble.

PORTREAD O WIL

Fy hen ffrind, Wil, pan gyfarfyddom chwap,
mi garwn gilio i gornel gyda thi
i gyd-weddïo. Mae gennym ar y cyd
yr Un nad oes drwy'r byd mo'r hafal iddo.
Mae gosodiadau 'dim' yn dod i ben.

A diau, bydd ein gweddi'n hyrddio'n gân.
Ti wŷr sillafau'n llawer gwell na fi.
Ond os cawn noddfa neilltuedig gudd
beth ffordd rhag llygaid Howel, mentraf y gall
fy nhraed gyd-daro'u dawns mewn cryn gynghanedd
â'th orfoleddu ben-dra-amharchedd di.

Hyderaf y cawn oedi. Dywedaist rai
llinellau am Un a'n lleinw, na fedraf-i
ond chwennyech trigo ynddynt hwy nes cawn
allwasgu galaethau yno i gyd-ganu,
canys dim ond anadl Duw fydd yno i'n rhu.

Mae gosodiadau 'dim' yn dod i ben.
Ac wele, draws y myfyr difyr hwn
digwyddodd — lai na dim — fath o anadliad,
chwyrniad medd rhai. O'r braidd y gellid ei frolio
felly. Ger dibyn nos, dôi llwyaid o nen
i ben, nid mewn gofynnod ond ebychnod.

Wele'n smotyn brown o ddryw neu'n fymryn llai
a dynnai gerfydd twitiad orymdaith ffraeth
faith o'r dwyrain, cychwynnodd dy chwyth di

i dresmasu ar fy mhresennol, fordaith dros
dy byncio ynof i, yn nod mewn cainc

ac ar fy llethrau duon, emyn roced-fywyd
— eithr yn forio — heb gadw dim o'm cargo,
— hwyliau mewn timestl, llyw a rhwyf a sianti
— meddw o'r maddeuant am osodiadau'r dim
a ddaeth i ben, a thithau hyd y dec yn glynu'n nwyf,

— a finnau yn y gwaed, a'n storm o serch ni'n
rhodio'r wybren a boddi yn ei hwyneb, heb
geisio anadl pwy. Yn glo, 'dw i'n *gallu* gweld
ei degwch ef, heb yr un chwennyech mwy,
namyn clod gwrthddywedyd byd a ddaeth i ben.

CLOI'R ORIEL BORTREADAU

Frodyr a chwiorydd, os ca-i'ch cyfenwi felly (glynasom yn ein gilydd; tybed onid ydym ni'n fath o dylwyth erbyn nawr?), does gan yr un ohonom esgus. Buom oll yn flin gan awrlestri wedi gor-gyd-waltsio gyda'r ddannodd ddinod, ond nid mewn cegau dewr.

Cewch achwyn am fy mhen gyda'ch gilydd yr eiliad ar ôl imi ffoi. Ond peidiwch â throi'ch cwmnïaeth ddelweddus at y mur. Dal pen rheswm yw'r angen mewn byd fel hyn. Ein clep ymhlith ein gilydd fydd un wedd ar ymddihatru o'r cur.

Cysgodion fu ein cwmnïaeth. Daeth Meistr eich meistr a mynd â'ch atgo, er eich ymdrech yn eich geto i gwato'n grwn. Tin-drof yn fusneslyd i glustfeinio arnoch yn rhoi'r bai arnaf am holl annibendod a mursendod hurtynnod y fuchedd hon.

Buom ni'n rhy hynod brysur. Cysgod a diymddiried fu'r smalio daear, ac felly, ymdrechasom — yn chwys — i greu ffair o fyd. Gwir fu fod y Gair ei hun yn gorfod bod yn frith ei wasgariad yn ein plith. Ei sbring fu'r sbri

i'n gwae. Eto, pob dydd a bynciasom fu'n dipyn o gymêr am mai celwydd oedd. Bywhad o ddarfod yn gorachod i gyd sy'n gyfnewid am y Diamser, yr henwr llawnamser a'r llanc rhanamser yn stablan drwy'r afon i wyro'u mymryn clod.

Bechaduriaid lu! Ac felly, heb ond noethni Uffern ar ôl i hon a hwn, a hwn i hon, a hyn yn ei haeddu oll yn rhwydd yr un fargen bob un, haeddwn yr un cyfiawnder o dân oni bai i'r Glân ddewis gwasgu'n baw yn glaer i'w glwyf.

Mwyach, cewch ymglosio yn eich gilydd, yn gôr cytûn,
i ddial ar ryw geg a'ch gwthiodd gynt. Eich sylwedd 'rois
dan yr ordd, ac yna'ch corddi. Onid hyn fuasai'r holl gynllun
canys yn eich gwisg chi y cripiwn yn grepach at ein Crëwr a'i loes?

Do: mewn Un, fesul un, y gogwyddasoch ataf, yn annwyl eich rhod,
i esbonio ac i estyn, am dro, eich cymdeithas helpfawr,
yr un yw'n haeddiant a'n hymffrost hurt. Onid Dim?
yn gyfan cyn Barn, eto'n gwybod gofyn am fwy na bod.

Ac yn un ac un, yr ych wedi marw mwy, a Mwy na minnau
gyda chi'n dad cyffeswr. Fe'n ganed bob blewyn i sêr
lle buom ni'n unawdwyr mor egwan unigolyddol gynnau
ag i ddod yn ysblennydd gaeth. A mwy ymunwn yn ein côr

mewn math o absenoldeb er mwyn bod gyda chi fy hun.
Chwiliwn i ynoch er mwyn cael fy chwilio fy hun heb ffws;
rhyw chwilio ail-law. A'n baw wedi darfod; daw'r ddedfryd
ddiedfryd ynghylch Ffydd, nid mewn ffydd ond mewn Cyfiawnder o Gariad...

Dyna glep ar y drws!

BRATIAU BUDRON

(Eseia 64:6: W.M.)

(i)

Pe gallwn wneuthur un,
Un weithred dda i Dduw
Heb lygredd lond ei chroen,
Sy'n wasanaethboen wiw —
Un, f' Arglwydd, un yn blaen
Heb ddim amwysedd, dim
Ond glân ddaioni, un —
Ow! dyro'r weithred im.

Ni roddwn innau'n un
Weithred ond dwylo gwan
A phlygu o'm rhan yn dlawd
A charu'i draed Ef tan
Ganu sawl mawl i'r Mab,
Bob un yn hollol hyll:
Ni weithiwn weithred on'd
Efô a wnâi honno oll.

Pe gallwn ebychu peth,
Un peth heb fi na fe,
Ond ti, heb feddwl rhith,
Yn syth o fol y ne',
O! Oen, y meddwl hwn
Yn gaeth i'th bwn, rho hyn
O dan bob rhan o'm pen
A chlyma'i boenau'n dynn.

Er chwilio hyd fy oes

Dan domen, ceisiwn gan
Wybod mai methu 'wnawn
Ag ennill llais i'm plan.
Ym mhob un cwr ceid llwyth
O'i le. Cynigiwn ddwy
Law wag i'm Harglwydd glân,
Fe'u llanwodd: llawen wy'.

(ii)

Gwaith nid oes
 ond ffydd sydd ynot.
Gwneud nis gwnaf
 ond gennyt ti.
Pa ryw rwysg
 yw hybu hebot?
Baw yw'r bardd
 a brefri ci.

Daw pob un ffrwyth o'r gwraidd
 drwy impio ynot Ti:
pob gwrtaith a phob maeth
 a dardd o'th ystlys li.
Oddi wrthyt syrth pob sudd
 a yrr mwy drwof i.
Carchara fi bob dydd
 yn rhydd ym mhridd Dy fro.

A ffrwytha fi o'th des,
 llwytha â nwyf dy nef.
Cardotyn grawnwin gras
 o'th winllan ynof 'dyf.

Gwinwydden ffyrting ffydd
ddibynnu a friga o’th gladd.
Benarddwr, blagur cudd
fydd Haul mewn llestr pridd.

(iii)

Adeilada, yn fy llygredd
Dwl hunanol, dŷ o’r nef.
Cyfod lechi sgarlad Iawnder,
Lleda do brenhinllin braf.
Ar ei drawstiau paentia â’th goch
Fy ngwendid cryf.

Brics o’r ddinas ma’s o’r atig
’Garia ras i’r ddaear hon.
Gwna y dirgel gartre’n gyfun
O gyfanrwydd pethau’r nen.
Eisoes yn lle taclau crefft
Ceir dwylo llan.

Fframia d’hun o dan fy nenfwd,
Saer, bydd imi’n fewnol lun
Fel y genir, ar fy aelwyd
A fu’n gnawdol, ddwyfol dân.
Ynghudd yn ei grât, Breswylydd hel
Fy lludw blin.

(iv)

Syn ras i mi fu gweld... mai dwst fu ’nodrefn oll.
Di-weld ffenestri a’r paent, y maent yn bilion coll.

Ar lawr, Tydi â'th lin ar lawr yn rhwto baw,
â'th fyd yn rhudd i gyd sy'n glanhau'r bryd â briw.

I'm llwch mi dorchaist lawes. I'm bedd. Ac eto, nawr
sicrach yw cartre'r Gŵr a ddaeth i olchi'r llawr.

Gorfoledd drud i mi fu nabod drewdod drwg
sy'n cynnau 'myw â'i sawr a deifl o'm simnai fwg;

ond mwy syfrdandod fu adnabod Un â'i waith
ymhob rhyw gornel gêl a dywallta, o'i galon, graith.

(v)

'Gwisga dy orau!'

'Fedra-i fyth fod yn geiliog dandi.'

'Mi'r wyt ti'n oer.

Mae dwyfol ddwylo'n dwym.

Nid gwybod bod

Duw'n bod fydd iti'n fantell,

Ond gwahodd rhydd

I wledd gyfeddach fwyn.

Oni weli di

Mai'r perffaith loyw'n unig

Yw'r sawl sy'n hawlio

'Ngolau i wisgo'i nos?

Mai rhacsog yw

Cardotwyr-bechaduriaid.

I'w haelodau llwm

Yn grandrwydd cyweddaf ras?'

‘Wel, agor imi.

Dillada wyl d’oleuni

Dros galon frau

A’i fflamau’n glau i’w glod.’

‘Myfi yw’r Un

Sy’n rhoi i’r noeth gyfarpar

Drwy’i dynnu adref

I bydew uchaf bod.

Ymgrymu sy

Yn clymu dy serchiadau

Wrth Un na all

Arall dy garu’n fwy.’

‘Llieinia fi

Â’t h gariad rhy garedig:

Ymostwng pêr

O’t h sêr fo’n fy nhecáu.

A thyf fy nghlod

A’m nabod wrth Dy nabod.

Yn frwnt fe’m gwisgi,

Ac yn dy wân mor lân:

Ym mhilyn ffaith

Y gwelaf daith gogoniant

Yn tynnu i’r

Diffiniau dros y ffin.

O! helpa fi

Im weddu i’t h gartref, Geidwad,

I’m Solomonu

Mewn gras, a mynnu Dy lam

It ledu drosof i,
Yn rhaid, gofleidiad.’
*‘Gardotyn lludw,
Wele ddi-weithred fflam.’*

(vi)

A’r Terfyn sy’n amodi
y ffurf ar grud a gawn.
Y Nefoedd sy’n cyflyru
y cadach urddwisg nawr.
Dyfodol sy’n fy nhaenu
mewn neithior gan a fydd:
eisoes, ceir manna o’r Nefoedd
i’r sawl a flasa’i dydd.

Ond carpiâu a benderfyna
y geni fydd o’th fodd;
a egyr y drws sy rhyngddynt
a fylchir yn yr Iôr.
Ein nod fydd presenoldeb
Marw sy’n fyw am byth
a’n geni i Dad drwy’i Ysbryd
mewn Mab gweledig gudd.

Yno caiff gwraig-tŷ rodio
wedi’i thrwsio i’w Gŵr
yn briodasferch brydferth,
yn ddisglair wen ei thwf.
A nef nawr ’nydda’r dillad
i’r teulu. Man sy i ddod

yw gwisg Ei eglwys yma,
a weithia iddi'i chlog.

Gogoniant fo i Gennad
a Bugail budd y berth,
lle methir trigo ond mêl-fis,
lle methir bwydo ond serch
ag angerdd Duw y duwiau
yn maethu corff pob pwn
drwy eni ynom Iesu,
â'r loes a lusgodd Iesu
yn gig i frig ei fryn.

MAWL I OFN

1

Erbyn hyn, gwrthodaf fynd
i unman ar fy mhen fy hun
heb i Ofn ddod hefyd
yn gwmni. Dw i'n esgus
anadlu eiliadau heb neb,
ond daw Un drwy'r awyr fraw
a'm dandlwn. Martsiaf rhagof
gan ofalu gadael i nef olion
anadl y tu swer i'r graig i sicrhau
bod hwnyma'n drywydd i'm ffaeledigrwydd.

A gwêl ef fy anadl. Ni chil-
edrycha, gan mai Oen yw'r Ofn
hwn. Gwn y carai'r Oen hwn
fod yn gyfarwydd â phoen, ac felly
Ofn Oen yw 'nghydymaith cu;
dirgryn lwch heb hwn dw i.
Bu arnaf ofn fod heb Ofn.

Ceir ofn ac Ofn. Fy artaith eithaf yw'r
Oen. Noeth dw i o'i flaen ef. Ef
a ddywed gryndod y llawn. Mi wn
fod hyn o fyd a'm haenen fod
wedi cyd-obeithio y gwibiwn
heibio i'r Oen untro mewn
eiliad, ac y cawn innau lonydd i fod
yn gelain fân mewn cilfach
o'm calon i, heb iddo

ef gofleidio f'angen i. Eithr
ag Ofn nes yr anwesa fy neall
drwy sanctaidd siars. Dirgryndod
da yw a'm hoffa mewn gogoniant
o olau Ofn... Diau y cleddir f'ofn, ond
A! Ofn; nid erys y ddau yn ddu.

2

Cig sy'n ddig yw'r naill ofn.
Cei wrthod annedd hwnnw
am nad digon byth mohono...
Cofleidier yr Ofn sy'n ormod,
sydd mor grinllys fel
na ellir ymostwng mwy.
Yr Ofn a'n maga'n Omega
yw Ofn yr Harddwch hwn.
Cryndod o flaen syndod yw.

Eithr y tipyn llall: casâ di'r angst bach
crepach hwnnw heb wrthrych bod,
yr un nad oes namyn galaeth
o ddirgryn ganddo. Eto, y gwir
Ofn hytrach yw Ofn y Gwir,
bod yn eiddo i ddafn o Anwel deall.
Ow! cofleidiaf yr Ofn hael hwnnw.

Ofner Ofn Golau, Ofn
craig yn y dwylo gweigion.
Ni wŷr dwylo dyn un Ofn
amgen nas anwylodd yn elwach
na'r colli sy'n ennill popeth

onid agosha a'm cyffwrdd
— ble? — a hynny'n awel bluen
gofleidiol lle mae'r wasg yn esgyrn
sy'n siglo drosof anadl Ofn Oen.
Carer yr Ofn. Cusaner ei ddychryn.
Rheda. Abertha Ow! gorff unig
bob dim sy gen ti, er mwyn deintio
golwyth o'r Ofn melys hwn
sy'n crynu wirioni arnat.

3

Dod fu hanfod deintio gwynfyd,
blingo llwm yw blas y lle,
curo ar Arglwydd, curo â chalon,
pwnio â phen, a phwnio â phle
nawr nes ymagor yno Omega.
Hwn yw Alpha gwych y gwaed.
Agored yw'r diderfyn drwyddo.
Eto i ddod y mae'r Erioed.
Ar ryw olwg does ond Duwdod.
Diwedd hardd yw Duw Ei hun.
Sylla yno ar Wyn a gochwyd
yno'n sychu â gwlân Ei gynffon
gronfa anadl Ofn a fu'n
ddisgwyl dibynnu ar lond Ei freichiau
Ef i fod yn wynfyd am dy lun.

DEWIS

1

Os 'dewis' 'wna'r 'dewiswr' bach,
 'sdim dewis ond i borthi bai.
Gall ceg 'dewiswr' frolio'r rhydd,
 ond gwynt y cudd a'i ceidw ynghau.

Ei gloi ef 'gadd mewn noson heb
 ddewis dyddhau y rhyddid fawr.
Ond gwyn ei fyd fo'r drws dan folllt
 mewn tŷ o'r fath sy'n nabod awr

a fyn iddo agor farw ar fol
 o flaen Un 'fyn i arall fyw.
'Does gan 'fawr' bach ddim iechyd byth
 ond ystlys waed dewisol friw.

Hyn, nad yw'n ei ddeall yw'r rheswm cudd
 dros ddeall gwrthod Duw. Yr Un
a ddeall ryddid yw'r Hwnt i'r cau
 sydd felly'n ei ollwng ef yn rhydd.

Chwilia drwy'r byd y rhyddid bach
 i yfed llaeth gair, aeth yw'r dyn
oni fo'n gaeth, ac oni wêl
 frawd 'wnawd yn fara ar ei lun.

Toc, edwyn ef y naid a wneid
 gan droed a glin i gyrraedd gwyrth
y bwyd. Nid oedd yn bosib — ond gwnaeth —

i gic o'r fath ddatgloi y porth.

2

Nid ein chwysfrydedd ni na'n llawen ud uwch lli,
Tref Tad a'n hadeiladodd a'n cwyd hyd frig y ne'.
Nid ein syniadaeth fawdd, ond Ei feddyliau Cred
a garia berthnasau'r wledd hyd eu diadfyd fyd.

Nid wrth ein hangerdd ni nac wrth ein dwylo chwaith,
ond wrth longdrylliad lef y nofiwn nef yn ffaith.
Eto: nid drwy ymddiried iod mewn cri sy'n weithred glai,
eithr yn y Capten a'n tyn o fôr i fyw di-drai.

A'n clod, gu Iesu, yw...bad-achub, Dduw o ddyn,
a holltwyd o'r groes, Fab gloes, i gludo'n broc yn lân.
Ein hawl frenhinol hon a'n tyn yn fôr i'w fad
i Atgyfodiad Brawd 'ddwg dlawd ar ddec i'w Wlad.

ACHUB WYNEB Â LLAW

1

Af â'm hwyneb i i'w achub
gerbron gwerin, gerbron gwir.
Chwifiaf dalcen fel arwyddbost
dan bob ffenest yn y tir.
Ffrostia'n dost am fochgern arall,
er bod hwnnw'n gelwydd pur.

D'arlais, Faban, fo fy mwgwd,
fy nghuddwisd rhag pob wybren las.
Dy lygaid Mabol 'fynno lathru
tan orgaru'r briddell fas.
Beth yw'r ael 'gysgoda f'edrych?
Pelydr-gnwd d'euogrwydd bras.

Croen a'm dalla dros fy nghorun:
yn ei wisg brin perthyn fwyf.
Treiddia Wyneb i'm genynnau.
Tyf o fewn fy ngenau glwyf.
Dadlenna imi haen o'm rhagrith,
miri maddau, meddwdod nwyf.

Brawd cystwyad yw fy Meddyg;
egwan Gorff mewn eigion gwir.
Trem deuluol 'guddiwyd drosof
mewn môr gwaedlyd hwnt i dir.
Ynddi tardd o'r ffynnon iachus
ffrwythlon ias yn ffraethlon ir.

Diolch am glwyfau iach ar wyneb
’gerfiwyd gan ddraenllwyn dros fy mhen.
F’amrannau cau a’i mawl e’n wastad,
bridd a môr, mewn wybren wen:
sibrydant nawr, ond mewn ailwisgo
bloeddiant ma’s o’u bedd: ‘Amen.’

2

Estynna law, Iesu,
estyn Dy law:
dim ond teuluddwrn
a’ m cuddia â’th friw.

Estynna fys yno
at fy ngruddiau drachefn,
Dy win liwio ’ngwddwg,
a’th dorth dros fy mhen.

Y llaw ’luosogai
dorthau ar dir
a estynnai at wep Pedr
rhag toddi mewn môr.

Estynna dros dyweirch
yn dwf ag un cwrdd.
Dy gledr a’ m plannodd,
yn gennin-Pedr mewn gardd.

Estyn law, Arglwydd,
i ddatod sarhad
fy mwgwd annifrif

a'i chwarae di-hid.

Y fath law gariadus
mor lluniaidd, mor hardd
a'm cyfyd ar groesbren —
pen-llad uno gwrdd.

ADDOLI RHEG

Cyfog o gyfenw gadd-ef
yn llw mewn esgus grud.
Rhegwyd Ei enw'n felltith
a daeth yn alaeth byd.

Mi fethaf beidio â'i enwi'n
Air, heb ddifenwi'n fawr.
Ei deitl 'fu ynghrog ar styllen
ac ar galonnau'r llawr.

Enwyd e'n rheg go enwog
a dyfai'n ysgol lawn
i'w dringo at ei hunaniaeth
a melltithio'r dim a fawn.

Is-enw a eilw orfoledd
wrth droed cofrestr dw i,
a dorrwyd ar ddryll o'i foncyff —
a'i foli'n felys fwy.

Galwyd enw'r Troseddwr
mewn dosbarth-ddaeaf glaf
i afael yn Ei eiddo;
a'i ateb 'yma' 'wnaf... 'Syr'.

CAIS AM GYNLLUNIO TŶ CYNGOR
(I'R CYNGOR TRI-YN-UN)

Cais am nyth ysgawn oedd hwn gan yr Adda ynof,
am y credai na fedrai Cariad ymollwng
ond yn y cymedrol a dawlai bob trymder pwys drudwys
ystrydebol drwy ymwasgu'n frau i hen estronfa fry.

Ond ehediad arall oedd y diwrnod hwnnw. Ar gefn y chwa,
da oedd yr i fyny a fynwn yn serog
selog. A hyn oedd y dôn i adenydd. Hyn fu'r
disgyn wedyn ymhlith gwae y ddaear ddiog.

Eto, syniai'r osgo o hyd ym mêr fy esgryn, os oedd
gennyf esgryn, mai o fewn gofod adain
rhwng perclwyd a pherclwyd gwinwydden, yn y Tadle canol
y down gan bwyll o hyd i annedd union.

Da bo enaid oedd gosodiad chwerthinus y drudwys
pan anwyd fi gynt i lwydni'u haniau uchel.
Eithr oherwydd un anadl cnawd ni allwn lai
na synhwyro gan y chwiorydd oslef cwestiwn.

Rhy drwm gelain, rhy ysgawn, sibrydwn wrth ddrudwen, fel
pe bai'r enaid ei hun yn ynni treuliedig
unig eisoes a chwenychai o hyd gyffredinedd llawr,
wrth ymadael, wedi gadael tasgion bawlyd o'i bwn

ei hun i'r drudwys chwâl ei gludo i'w hyfforddi
uchod o fewn eu cartref disgybledig.
Dim syndod mai dagrau digrif ydyw'r briwsion awyr.

Ac onid pechod, fy nghynllun gwreiddiol am aelwyd?

Eto'r awyr oedd biau'r math o wyfyn annedd i enaid
sy'n taro i'r angen ar ddiwedd byd.

Hyn o hyd yw hadau cynhaeaf y gweld golau clir,
a hi a ddeallai nodau'r drudwys llwythog.

A galwodd: 'Cest gynllun'. A adawai f'anadl noeth
y cais i rollo'n arferol fel drudwys
gylchoedd tan lawio henaint yn rhy heini? Ai beichus
y ffôl adeiladu blin addysg y blynyddoedd

nes yn ysgawn y llunnid cartref? Ond drwy hedeg yma'n isel,
a gorffwys-estyn y corff uchel lond ei adenydd
yn erbyn yr awyr angylion, sydynai f'enaid yn y cnawd
ar Adeiladwr wrthi yno oedd ei hun yn gynllun gwinllan.

I GYFARCH CEILIOG GWYNT MODERN

Ar gopa'r eglwys, ceiliog bach
propor copr uwchlaw ffug
arian ar do a chwilia islaw
am y ddaear o hyd. Ond ni chàn.

Eithr mân, braidd, yw'i ymennydd:
disgwylia'i feddwl tûn
i wynt gludo ar nerfau yd
y byd ato yn ei dwymyn

ddyrchafol. Teifl gipolwg
yn eiddigeddus ar led
at balmentydd isod sydd megis
toi o dan doi. A'i wir ofuned?

Gwell gweirglodd na dilyn gwynt,
ac aros un ffordd, gan nad yw pobffordd
yn unffordd. Delwa'r byd 'lan ato
gan dybio'i fod yn nabod nen.

'Hei ddaear fach, dere 'lan
â'th synhwyrâu a'th dyfiant prin
dienaid.' Sigla'i adenydd
yn drachwantus a thybia'r werin

mai cyfeirio'r ysbryd-drafnidiaeth
'wna tuag i fyny. Eithr hiraethu 'wna am
awelon i'r hadau dreiddio i graciau'r
pafin ato a nacáu unigedd ei helynt.

Dichon y dylai glochdar-wylofain
am ddiffyg cyfeiriad awel ddiddig
a ddylai ddryllio'i galon. Dichon mai metel
yw ei ymatal. Dichon yr egwr ei big

i groesawu oddi ar dynchwa'r ddaear
hadau chwant hyd ei ben... Er mai clochdar
am eneidiau y tybir y'i gwna, yn y bôn
chwilota 'wna ym mhob unlle am iâr.

GOFOD ANNWYL

(R. Tudur Jones)

Pan oedd llyngesau o lygaid
Ar ffo rhag ffydd, a'u moroedd
Bychain yn crebachu am oror,
Roet ti'n un oedd yn mynnu'n gyson
Sbio'n ôl drwy'r deall.
Yn ôl oedd ymlaen i ti,
Ac yn y dechrau caed diwedd.

A phobun o'r newydd wedi
Hegel, yn ei genhedlaeth
Yn gorfod dysgu, drwy garu
Cyd-ddyn, mai dyn yw'r gelyn
Yn ei ragdyb, yn ei ddiffyg Achos,
Tydi, drwy olrhain cenedlaethau
A'i darganfu acw ar gei porthladd
Yn gwancio'i dranc ei hun;
Yn hiraethu am beidio â pherthyn;
Ac eto, mor annwyl oet wrtho.

A thrwy'r eigionau ansefydlog
A grogai ar fargod amrannau
Yn ôd caled fel tarian,
Yn dirion fel gwllân, hwnnw, draw
Drwy ras tuag yn ôl, a ddarganfu
Feddau yn gerrig milltir, ac
A gâi glem ble yr eid o'r gadair ymlaen.

Dylsid pan ymadewid â chadair

Gyrchu hefyd â'i holl gynnwys, —
Paraffernalia'r gofid, annibendod sbri,
Heb adael ynddi namyn siâp ddwys i ni.

Ond gwres hwn wrth fynd fydd yna ar ôl
Yn wres Gair a dywalltwyd i eiriau,
Gynt a chynt ar hynt drwy'r cenedlaethau.
Agorwyd y breichiau hefyd yn ffarwel,
Bydd cadair hwn yn cofleidio am byth
Donnau Hanes y dyfodol na'n difoda.
A'r siwrnai drwy ofod hael a'n cofleidia
Fel yr adeiledir porthladd llawnach i lu
I deithio ymlaen gyda thi yn y perthyn
Mawr. Ac erys y cofleidio mwyach
Gan haid o dynfadau eraill a glywsai'r
Hanes a borthlannwyd mewn Oen.

A'r Penllyngesydd, a fu gyda thi ar daith
Drwy stormydd, nawr wedi gorffwys
Yn Ei gadair a atynnai'i dragwyddol
Amseroedd ar draws y môr bob man
I'n cofleidio ni oll yng Nghymru
Mewn cae a rydd ei Hanes inni'n Rhan.

GWYNDRA'R SUL

Diwrnod golch yw, megis pob dydd
Arall i'th enaid. Ac angen peiriant nen a fydd

Lle y cei d'olchi â sbri yn nhonau
Y botel, a'r criws ymhlith grasusau

Na'th dwyllant â'u tawelwch mwy ddim
Mwy nag y twylla'r byd â thawelwch bom.

Ysbryd dyn, dere i lawr i'th ddiwrnod gwaith.
Di gorff ar d'adain, cer i gychwyn dy daith,

Gwrandawer ar y cywasgu gan awelon
Sy'n llonydd ddi-sigl ymhlith llieiniau calon.

Gwaith gorffwys yw gwres: plyg dan nen
Tan gwthwm eu taenu dan draed o flaen eu Pen.

Nef, nef a'i hen dangnefedd wythnosol persain
A wasga'i ddiffyg oriau i bedair ar hugain,

Fe'i cyfansoddwyd gan waed, fe'i gwnaed yn groes.
Dawnsia ar draws y gwynt gan ynni einioes.

Lond ei groth o atgyfodi, lond ei grud
O'r byd a lwnc yn ddim, fel y llwnc dim y byd

Am chwe diwrnod y corff. Pranciai'r chwech
O'i gylch yn ddistawrwydd ar orsedd. Hwn sy'n drech

Na'u gwasanaeth cael. Yn gaeedig mewn ysgwyd dydd
I ennill chwech, bu Un dan gost ei gystudd.

Nes selio'r Sul, nid gan barwydydd cul,
Ond gan siant gogoniant yn ei heulwen chwil.

Tan Lun adnabod hedd y byd a'i 'hyfryd' adfydau,
Ni fynnid amgenach strach na stŵr penliniau.

EILIO CLOD I AIL BERSON

Llunnid o gylch ein sgerbwd
ffurf-len deuluol cu
canys haenwyd cynllun i'r hunan
a'i ostwng oddi fry.

Argreffaist felly ar Adda,
O! Ysbryd, D'ysbryd cudd:
wedyn drwy'r Adda Ddwyfol
lun ffynnon braf o brudd.

Y cyntaf a aeth yn eilun,
ond Person Adda'r ail
a hadai ar bawb ganedig
gawr-bychan-lloer i'w Haul.

Gad inni etifeddu
yn ddirprwy Israel 'nawr,
ail lun o Israel fythwyrdd,
ail fach i gydio ym Mawr.

Ail genedl ar gyfer geni
yw bod yn Isräel
yn blantos i Ysbryd Abram,
yn wysion i Isaac hil.

Sut cawn ni fforddio'r Cyntaf-
Anedig gan Iôr mor rhad?
Rhagosodiad tu ôl i'n rhagdyb
fydd inni'n Fab o Dad.

Ac wedi dadfeilio o'r Oesoedd
tan dreulio'r Deml i'w sail,
esgorwyd ar dylwyth newyddrin
drwy i'r Un adeilio'r 'ail'.

TÂN YM METHEL (*Tŷ Dduw*)

Yma na'ch twyller gan y tân.
Tanllwyth yw'r cefn crwm, y ffon, yr hetiau
benywaidd, y siwtiau gwrth-fwg
ar hyd yr eil, does ganddynt ddim

cymaint â hynny o ymostwng ar ôl. O sedd
i sedd yr hercia'r Diffyg â basged
i hel — O! hel — hynny o wirionedd
sy'n weddill. Llogaberthwyd eisoes foes.

Mae yna dân sy'n rhewi ar ôl, a diffyg
tân sy'n rhuo hefyd, heb bwff.
Snwffiant aer a ffurfiant eu plyg
yn llygatgam i sbio dan lorïau.

Wel Bethel! fel y ffaglwyd yr 'Êl'!
yr aeth yr hogïau i chware ag e,
ac yna, i chware fel pe na bai ond mater o
adel, ar bentwr llechi'r llawr, elw.

Ond ynghynt bu'r absen fflamau'n llosgi uwch
gwehilion Beiblau. Dringwch, gollyngwch ffydd
drwy'r drws rhy hwyr. Peidiwch, —
na; ar y ffenest, parddu sy'n ffynnu.

Gwaeddwch eich coelcerth Bethel, udwch wrtheb
eich gwybod oll. Y tŷ a ymedy. Daeth
matsien o wneuthuriad lludw. Duw fydd ar ôl
heb le led ein llwch i ddodi'i ben bach i lawr.

Llosgwch Fethel. ‘Beth?’ oedd y cwbl o’r ymchwyddo
o’r sêl nas tolciwyd ar y talcen;
ac adfail fydd y cwestiwn beth
nes y’i cynheuir ag edifeirwch fel yr Êl i’r pen.

MARWNAD I'R DRYCH DIFARW

(i)

Y byw na fedrai farw
fu farw drosom ni,
y Da tu hwnt i'r dyn
a ddaeth yn ddyn
a'i larpio a'i fflangellu,
diolch yn deilchion.
Udwn am Un.

(ii)

Drych fuost, Frawd, ar wely pren,
adlais i'm bryntni'n floedd.
Sbiais i ynot, yno roedd
fy staen dros ddelw'n llen.

Blancedwyd â gwaed-wawr, Frawd y Dyn,
fy syllu nosol falch,
nes it gaboli'r drych o walch,
a gweld Dy wyneb dy hun.

Ffiaidd y graith a'm gwisgodd i,
ar fore Dy degwch strach,
aflan i'm llygaid frawdoliaeth fach
o'th gwsg gogoniant di.

Cerddais heb glwtyn oddi draw:
sgwriaist fy nhyntu o'r bru,
certhaist fy ngolwg, a'r dŵr yn ddu
a'i ollwng drwy dyllau Dy law.

A chefais drwy hyn o drem un wyrth
ohonot lle dylai 'nhrem
fy hunan fod. Dy wisgoedd gem
a'm porthai draw drwy'r pyrth.

(iii)

Pwy a'i gwêl ei hun yn y baw?
Dotiwr braw â gwaed.

Pwy 'te sy'n ffoli arnom?
Y Dechrau rhag y diwedd.

Pwy sy'n Ei roi ei hunan bach?
Llawn ystyr yr hollfyd.

Pa ddawn o'r tragwyddol 'ddaw?
Gwag cyfan gwbl lawn.

Pa ran o'i galon 'rydd?
Y cwbl lot i bobun.

Ond pa wydr a adlewyrcha?
Y garreg isel a gurwyd.

(iv)

Gwrthun yw golwg 'Ngheidwad hardd: fe'm gwêl â gweled nef
Sy'n chwilio llygaid llawr yn awr i'n dala ynddo Ef.

Heb bryd na thegwch, Fugail o Oen, mor weddus yw Dy wedd.
Melltithi â phersain D'eiriau Di — heintiau Dy hil â'th hedd.

Gad iddynt bigo fy nhalcen mud â geiriau'r goron ddrain
A wisgasai Oen dros f'egus i: O! gad im gario'r rhain.

Fy llef o'm calon i a'm traed dan waedlin Gair Sy'n Dduw,
Adleisia'n ddibaid fi a Fo yng nghlwyfau'r meirwon byw.

(v)

Ar ei Groes crogasom Gariad,
Yn Ei waed mi gosbwyd Mab
Am 'weithredoedd' criw hunanfawr:
Llid 'dywalltwyd gan y Tad
Dros yr Un a wisgodd yno
Ein ceryddiad cyfiawn. Barn
Ydyw'r Absoliwt a sarnwyd:
Duw yn gwanu Duw yn chwyrn.

Gwelwyd felly'n lân gymeriad
Brenin nef yn llwyr ddi-fai
Pan ddiodefodd ein camweddau
Wrth derfynu ebyrth lloi
Oesoedd. Ni chaed un tywyllwch
Adeg tywyllwch 'hongiwyd gan
Farn a garodd y Troseddwr,
Cariad 'farnwyd yn ddi-gam.

Diolch am amhosibilrwydd
A ddatodwyd gan yr Un
Nad oes gwrthddyweddiad ynddo:
Diolch i gur cydbwysedd drych
Angerdd ein Gwardwr tirion —
'Agerwyd inni'n ferw o boen

A ddarparodd bob gwrth-ddelwedd
Yn y Llew a wnawd yn Oen.

(vi)

Dyn 'fu'n guddwsg Duw am gyfnod,
doedd dim c'wilydd ar Hwn fod
yr un ffunud, union debyg
i'r cardotyn 'gollasai glod.

Halelwia

i Olchwr rhod.

Ganwyd pawb 'ailanwyd ynddo
yn ei fedd. Fe'i codwyd: câi
edifeiriol yn y gweithdy
adfer fel pe na bai bai:

Halelwia

i Saer ein clai.

Rhoes Ei goron ar fy nghorun,
craciau gloes ei foes i fi'n
ddinasyddiaeth lân lle y'i gwelwn
mewn drych anwel, uwch na ffun.

Halelwia

Luosog Un.

(vii)

Tua'r drych dringasom fryn,
Bob un â'i lwybr
Heb gyrraedd, gysgod, ben
Ond methu ar grwydr

I fyny, lu ar goll;
Oni ddôl Hwn i'r gwaelod
Yr Un sydd oll yn Ffordd
I'w nef ddigysgod.

Pob un o dan ei stêm
Ei hun i'r lan
A ffaelai'n allu balch
Bob un yn brin;
Ond toc y'n tocia'r Un
A rydd y cwbul,
Y Duw'n graciedig ddyn,
Yn dra-ymostwng.

Bob un â'i uchelgais bach
A phawb ar gam
I'w wneud ei hun yn ben
Disgyrchiant grym;
Ond tyfwr mawr y bryn
Roes ysgol i bysgod
I dynnu'r llithrwr ffydd
'Lan gerfydd cymod.

(viii)

Aubade

(Aubade: cân a byncir gyda'r wawr wrth ffenestr yr anwylyd wedi'i ddeffro)

O dan y drych o ffenestr
Saif Atgyfodiad
A geirio'i gariad cain
Tan ubain *Aubade*.

Ffenestr a'n hadlewyrcha
Yn olygfa sychdir
'Wêl Yntau gan fwrw'i lun
Atom yn loyw-ir.

Dihuna'n heneidiau'n ddrych
I'w serch yn awr
A phyncia'i *Aubade* yn ôl
Yn gusan cawr.

DAU YM MAI MEWN OED Â MÔR

1

Peryg i Fôr yw mentro

Ar gyfyl dau:

Gall golli'i lanw heno

Yn eu bae.

Wrth gilio ym mod ei gilydd

Ar fin ei draeth,

Tanseiliant ei storm a suddo'i

Rythm yn gaeth,

Yn gaeth i'w cerdded hwy,

Yn gaeth i'w serch.

Fe'i llyncir yn gorfau dawns,

Gan fab a merch.

Felly y dofir Môr

A'u huno'n gry.

(All yr hallt ar draeth ddim holli

Rhwng dau gu.)

Sugno'r Môr i'w henaid

'Wna cariadon ddau

Ac yno'i gelcio'n ddiogel

yn eu swae.

Mae gan eu tŷ ei Môr,

Foneddigion llon.

Gwylwch a wnaed gan ddau

Ar ddaer, liw noson.

Ond y Nos, gall honno hefyd fwrw ton
 'Fedr ymdoddi mewn deuddyn dan yr amwisg hon.
 Rhwng Môr a Nos (*ni wn ai cerdd neu bros*
Gaiiff ddyddio yn hyn o ffrae, o'm dewis i),
 Mae dwy ysglyfaeth i'w seremoni mewn plu
 Â'u ffuriliau ffrolig ffri... Dewiser lli...

Ond megis Môr, eu sêr 'fedr frodio'r Nos,
 Y bruddlon ddiog Nos. Cusanant drwy'i broc
 O oriau'n graith o emwaith. Dau ateb pôs?
 Ni ddihanga Nos; ni ddihanga Môr ychwaith
 Rhag dau gyffyrddiad na rhag chwerthiniad iaith.
 Mor un yw'r ymryson hwn i hyn o ddeuddyn
 Dan gôr y gorwel. Canys onid yw'r Nos yn hÿn
 A'i lloer biau'r trai, er iddo'i sbaddu'i hun?...

Ond ar adeg fel hyn, enghreifftiau yw ildiad Nos
 A Môr: ni chaniatêir i undim gennym aros.
 Canys cyn i Fôr a Nos ffoi rhag consurio Mai
 Fe foddur mewn dau yr hollfyd — ni ellir llai.

ARHOSER I GYFRIF TRI

Un ennyd difater ryw drigain mlynedd yn ôl
Mi gefais ysgytwad am yr eiliad welw gyntaf
Fel pe bawn wedi poeri yn oer i arch.
Dw i'n cofio taw di-hid oedd llaw fy nghyfarch
Ar dy ddwylo hardd. Eiliad fu honno na fennodd
Ar y sesiwn o'm hobsesiwn serch. Dôl gwaedd o'm gwallt;
Gwagle oedd yr ysgawn hwn, yn filiwn o filltiroedd mud
Gan nad oedd neb arall yno, neb ond rhyw 'na' mewn briwsionyn fyd.

Cawd iachâd chwap. Blaen naddwyd ein blynyddoedd
Erbyn eleni clod. Pentyrrodd pob-bod yn ei ôl;
A than ei dunelli anwes celwyd y cilio hwnnw.
Llepodd normaliaeth wirion dros draeth canol-oed.

Gormodiaith taeru na fu na thrafnid na threfn
Heb wywo wedyn. Ond clærineb? Trachefnrwydd lludw?
Cyd-heriwyd oerfel gennym yn ddiogel, gâr.
Anghofiais i'n lân dan atalwyd yno'r ofn
O golli 'mod drwy golli bod. Ni haeddai'r fellten
Ddideimlad ynghynt mo'i dwys goffâu; fe'i codais ar bâl
A'i chludo i'r ardd, a pharatoi twll i'w chysgod;

Peidiodd rhag bod yn ffin i'n gorffennol;
Gorffennwyd, yn y gorffennol, honno â'i llipryn clep;
Caewyd ei cheg, a chlowyd ei llais rhag sŵn;
Aeth yn fynydd o anfod, yn ffyddlon absen ynfyd,
Ni fu ar gael. Diflannodd ei hegwyl gymedroldeb.

(Oni fedrai'i hatgof gael ei iacháu gan dipyn pylni?)

Ni allai'i gwaed sleifio'n ei ôl. Ddôl byth yn ôl...)

Ond daeth yn ei ôl eilwaith, yn swanc i gyd, yn wanc
O hyd am atynnu fy nhipyn sylw ffôl,
Nid fel atgof hurt, ac nid fel pe disgwylasai oed,
Eithr yr un mor oer. Do, daeth claerineb yn ei ôl yn hael
Pan ymystwyras dro neithiwr a sgwrsio pa ddarpariaeth
Roedd eisiau'i gwneud ar gownt ein cyd-ymadael.

Cydymadael a'm trodd atat ganol cinio â chysgod
Fy llaw ar gefn dy law neithiwr: crapiai fy llwnc
Wrth lynu 'nhrem ar dy belydryn parhaol na fedrwn
Ei weld, ac fel pe bawn innau'n atgynhyrchu
Pob eiliad i'w diuno. Rhewodd y canfod,
A nadodd ei ddistawrwydd 'lawr drwy dwannel
Braw, nes o'th ysgwydd briw hyd asgwrn braich
Y'm sobrwyd drachefn o adnabod ysgawnder cyffyrddiad.

Gwn yn burion ddaeargrynfeydd dewisol o dangnefedd
(Ond nid dyna oedd, na'th felyster o oedi'n areuledd) –
Yn disgyn yn dameidiau o'm deutu, yr adeiladau talaf,
Plant-y-stryd wedi'u dal tan waliau (am mai dillad benthyc
Am y tro yw'n dillad oll), a'r awyrennau unoed
Yn cyrchu i Haiti â nwyddau cymorth i'm calon
Â'm coludd... oherwydd briw. Ysgawnder dan gryn
Fu'r ail ennyd.

Wedyn heno ar draws ein defosiwn,

trydydd

Cyffwrdd a'n cynhesodd. Nid ysgawn na heb arlliw o gwestiwn.

Sydyn fu yn ei bwysau; ond sydyn o hir.

Cwta fu'r arloeswyr cynt. Fel amser yn gau chwilio
Am ofod, llygod llugoer yn ysgythru ar eu cythlwn
Dan y bwrdd mewn defosiwn. Do'r Trydydd 'droes atom yno —
Nad addawai yr elai i ffwrdd — di-febl ddi-ddiwedd, dihaeddiant,
Diledryw, di-ludd; ymyrraeth newydd a gawd rhwng tri
Os ymyrraeth yw pompren, a hwb 'gawd am Ei gartrefu
Mewn dyfodol o 'Fydd.' Dysgodd presenoli'r Trydydd
Fathemateg Un a dau ysbryd. Pan gyd-doddai'r ddau,
Y Trydydd hwn a ddôl atynt yn llawenydd o gynllunydd.
Y llawenydd 'all ennil, y llawenydd 'all hyd yn oed ein llunio.

Gwybod hwn nis ceir ganddo byth heb hybu'r heb-wybod.
Nid crwydro a wnawn na digwydd cyffwrdd: clo Ysbryd
Oedd had y Trydydd rhydd. Ac aros i'r Cariad hwn ein cyrhaeddyd
Yw'r tri chynnig i Gristnogion, yn arbennig i'r ddau gloffyn
Ar yr hewl dan gochl i Emaus, ond yn dilyn yr un ffordd
Mewn buddugoliaeth nad yw'n haeddiant i neb ei chael
Mewn cadw-mi-gei.

Y cybydd-heno yma sy'n gwasgaru'n ffri
Gonffeti ennaint fel yr erys yfory i rifo'i dri drwy gadw'r lliwiau
O'u deutu'n dwt i'n persawr brau'n un led y llawr annigonol.

DOWCH I WELD Y MÔR

1

Daethant i weld
ein môr: cymer'sant
y tir. Safasant
am fis uwch pôs
ein hunaniaeth hir
a'n gwaddodi'n llu
o enwau-caethwas
yn jôc fel Jôs.

Daethant i gasglu
cregyn: heliasant
oroesiad. Daethant
i weld y llwyni
a chymer'sant iaith.
Daethant am daith,
sugnasant ganrifoedd
allan o'r llwyth.

Aeth pob mis yn oes.
Daethant atom heb wybod,
plethasant ymgom.
Prynasant ein traul
o ddifodiant hael.
Stranciasant gytundeb:
cawsant ddifffeithwch
a hwyl a haul

a hoe. Buont fodlon

i'w gwynt fod yn fand
iddynt ddathlu
eu llefaredd o fôr.
Cragen clust fyddai'n
tir amddiffynnol
mwy tra bo'n wth,
yn ust i'n dŵr

sy'n gwadu gwaed.
Gwrandawsom ar dwll
yn y taeog heb glywed
gwaeth na'r môr
segur-hisian hwn
fel nyth nadredd
'fydd yn ochrgamu

ymlaen, Gymry rhydd
yn anymarferoldeb
ein 'cadw'. A goll'som
ganddynt groen gwych
wrth brotestio? A fu i'r tir
gadw'n pennau'n sych?
Na;... wedi'r mudo
i ganol y mud
cawn hirfyfyr mewn iaith

a lithra oddi ar y corff
ac a ddirdry tua'r gwaelod
fel llyswennod Cymreig.
Doedd hynny – nac oedd? –
ddim yn anodd – oedd?

Daethant i weld
y dŵr. Fe'i gwelsant.

2

Dw i'n eithaf trydar oblegid
Bod canran uchel ohonof yn ddŵr.
A thithau yn ddŵr, meddyliwch
Am y fath nant y gallwn ein dau
Fod wedi'i chyfansoddi, a'u dagrau mor hapus
Â gwres. Pen-lin ar bwys preseb.
Meddyliwch am y llyn
A orweddwn gerllaw Cwm Rheidol
Mor bluog â haul yn halio
Gwlithyn yr holl ffordd i ben Pumlumon.
Meddyliwch am y môr.
Na: peidiwch â meddwl am y môr
Oblegid bod hwnnw'n grwt bochgoch
A red mor drist â thrystau
I geisio claddu'i ben, gan wybod
Am y tangnefedd ailanedig sydd
Ar ddod i'n hel
I domen sbwriel y gorwel. Na:
Peidiwch â meddwl am y môr. Ond ar un
Amod. Os yw'r môr yn fewnfudwr
A chanran uchel ohonof eisoes yn ddŵr,
A thithau yng nghôl fy nghalon yn mentro
Mwynhau, haf iti gyd-ddod ataf fel y diferyn mân lleiaf o ager
A chwythu'n ysgafn boeth o gylch llysnafedd fy llyswennod.

pryd ar frys

bysedd tyner fu gen ti yn y grefft
o'm coginio a pharchu'r dasg a wnest
dechreuaist drwy 'mhlisgo gyda'r
tatws rown i'n disgwyl halen yn fuan
wedyn ac fe'i ces teimlwn i'n bur gartrefol
o'm torri'n dalpau cymesur a'u gosod
i'w berwi fe ferwaist fi drwof
a'r un pryd roedd fy nghig yn rhostio
roet wedi 'nhrwytho mewn sawl dŵr
i'm trin drwy ganrifoedd does bosib y peidi
â'm llowcio wedi'r holl fwynaid drafod hwn
ym mhryd a gwedd hud a hedd yr heddiw hwn
aberthaist dy ddwylo heb wylo yn y saig

camp coginydd gwych yw doddi ychydig
ohoni'i hun i mewn i'r medd gosodi
ynghyd â galar bricyll fefus anadl
d'orennau noeth a rhew d'afalau gwlanog
mafon dy ruddiau gyda'th ruddiau perllan
lawn o'th ddychmygion myglyd yn fy nysgl
ynghyd â chelwyddau trwyn fy hen rinweddau anial
a finnu'n feniw chwil ar gyfer y fenyw hon
oherwydd onid yr un pob dim yw coctêl bob
llwncdestun y mae eisiau ei weld a'm blasu byth
a phryd pob amser yw gwledd dy wyneb di
er gwaethaf cyfeddach treulio fy iechyd da
wrth inni bob heddiw heb haeddu ddrachtio'n gilydd

BETH OEDD Y GAIR?

I

Wedi coll-leoli f'ymbarél y filfed waith

A gwlychu fy nhrôns dan nacâd fy mhrostatd gwall,

Fe benderfynais benderfynu oherwydd rhaith

A rheswm ble y rhois fy nghofion. Pam na all

Fy nhipyn Gaeaf f'arwain i'r lle arferol

Os euthum â hwy i fan diogel erioed?

Tameitiach o'm dail a dreiglai ar-led. Mewn sinc? Dan stôl?

Na; yn y drôr! Go brin fod eisiau strach,

Bachan, i fanteisio ar guddfan cof yn ei gôl bach.

Fe'u rhoddais acw wedi codi fy mhac a bracsan â hwy

Tua'r du. Byddwn felly am eu doddi mewn tameityn lle

Trefniadol, mewn gwâl lle y caent gnoi'u hatgno'n gil

Drwy ystod noson o oesoedd ym Mhegwn rhyw Dde.

Cysgaduron llon fyddai'r fath anghofion chwil.

Hunllef wedyn? Dyna f'arfer: wedi pilsen neu fil o ddos:

Caent gelu'r dail dan olau cwsg heb ei dybio'n nos.

II

Tua'r drôr felly trois. A maglu wrth gwrs ar bob brigyn

Neu eginyn o air, cyn dod yn ôl at fy nghoed –

Dail rhuddgoch yn glythu'r ddaear â'u haf, y ceinciau'n dihatru

Eu dyletswyddau yn fwyd i'r pren sy'n drên dan droed.

A chwaraeai'r blynyddoedd yno. Caent rollo ymlaen i'w hwylofain

A threiglo i'r orsaf y buwyd yn ei dangos iti erioed,

Mewn dŵch heb syflyd o gwbl.

Oherwydd peth pleth,

Nid ymeflais ynddynt. Anghofiais pa ddrôr oedd. Ond ti
A fi, cawn fod yno'n 'ni' eto ein dau
Mewn ymgom am bobol eraill na chofiant eu c'wilydd
Na'i gilydd na'r celwydd o ganolddydd 'fu yfory ar drai.

Yn y niwloedd ar draeth hunaniaeth a fu i'r fath radd
Fel y methai Hiroshima f'anghof, – ni ddaeth fy ngeiriau,
I wneud dim wrth imi forio i bob rhyw borthladd
O'm hedifeirwch. Ni all eu colli-gwyntrwydd
Ond breuddwydio rhyw atal. Eithr stifferwydd drôr fydd i'm môr
Droi'r broc yn fwy na thanwydd a'r mân
Yn fawr drachefn, a'r baw yn lân a'r hanes llwydfelyn yn gân.
A thithau'r hen hon, wedi taflu d'anghofion di-lais
Ifanc i ddifancoll du. Eto, cof y Nef fydd acw'n ymdonni
Tuag at dy sillafau a wnâi gais am eu dweud;
A chofiaf nad dy ienctid wedi'r cwbl fu'r hyn erioed a gerais.

III

Yn affwys oerfel henaint
arweiniwyd dau i gasglu blodau yn gofnod o ffenestri cain.
Doedd fawr aroglau: mae'n siŵr fod atalnod haul wedi hela'r paill allan o'r rhain.
Dyluniai Gaeaf cywrain amdanynt batrwm titrwm-tatrwm,
ond dilynai'u cyrchu i'w marwnad druan o dan eu hadain.

Dau fychan wedi hercian at eu troednodyn
i blygu wedi'u carlam hirfaith yn ôl o'r cyd-sgwennu
pendramwnwgl am gof yn grwm gerbron y drôr, bellach yn casglu'u haelodau ynghyd
yn Flodeudorch braidd yn afrosgo esgyrnog er mwyn eu gosod
yn barch tu hwnt i eiriau, a heb haeddu clod,
o flaen cytsain nas ynganwyd! Sut y mentrai'u

Gwanwyn gynt, â'i lipryn tudalennau einioes, drwy ddu y ddaear?
Dim ond drwy gredu'r deilios. Buddsoddyd eu pensaernïaeth ordeiniedig mewn iâ o arch
Blodeudorch, er na chlywai neb fawr o gyfarch eu cynllun
cefnsyth wedi d'absenoli di a fi.

Cysgod 'welid drwy'r cyd-flodau hyn. Croesholwyd y ddau'n
gartrefol, yn yr wybrennau onglog, drwy sgôr y miwsig sgwâr.
Ni holai sgaffald wybren-sillafog Nadolig, (oblegid canu i'r awyr tan sgerbydau gwâr)
pam y byddai cwmp o ddeiliach wedi gwrteithio'r Gaeaf i lanc
ei Dorch ac i hanes eu hunllef rithio'n sbort am wanc.

Oblegid fan yna, ar dir cyflwynasant eu congledd siabas.
Ymddúg fel preseb uwch bedd a fu. Wrth fanio Nadolig, mi doddyd nos
mewn cymylau. Llanwyd tyllau lle buont yn rholio. Ond ym mhatrwm cysgod drôr, mi fydd
Geometreg Iôr, tan syrthio o'r gofodau â'u haniaethau ias,
yn cerflunio *ER COF am gof* craceri gwýdd

ar ffenestri'r Geni. Sisialai'r ddau wrth roi petalau
gwyfyn eu Blodeudorch gerllaw gaeafwydd berf eu terfyn.
(Ond ei ddel yn y ddadl gaiff ddadlaith.) Bu'r cwbl dan reolaeth, yn gorneli yn ei gynllun;
oherwydd yng nghythrwl y môr geiriol torrwyd eu gwisg yn ôl
y brethyn gan sgwâr-wyndra'r Un

yn seremoni sanct Nadolig. Dau
drwy gylchdro gwyrf wybren, — o achos Pasg Gwanwyn-droellog
cymesur dan reolaeth gwaed gan ei fod — hyd yn oed er y dechrau — yn doddi plyg
o esgyrn tawdd i eiriol ar yr Awdur a syllai, — drwy'i stori o ddaear
edifeiriol, ffrâm gydbwysol o aeron, — ar gysgod ei Grog.

A blotiwyd; caewyd eu plot. Ond fe'u planiwyd mewn nef,
fe'u plannwyd ar bapur. Ac yna, ar gofadail o afon

caed y fath gylch-achub tlawd a'u cariodd ar nawf mewn Torch-wead mor gylchog,
nes cylchu'r gair yn 'Un': siglwyd, dros ein caneuon geni, lwch cwmwl o awyr las
yn hongian ar y drws yn dlws tan ysgwyd, nid yn llesg fel esgyrn.

wado ymlaen mewn hwiangerdd

llwyddai'r gwynt i wasgu hwian
ei eni i siglo siglo
cyn iddo ddeall
yr un iaith rhaid oedd iddo
wybod hyn o wybren
sy'n preblan
pymtheg y dwsin am
yr aur oedd ym mhopeth melyn
wrth wyn ei chlyw
a fyddai gam wrth gam yn ddysg am
siglo, siglo hyn o hyn o fywyd

ymlaen wedi darganfod
mai swigod oedd y geiriau
beth oedd y gwynt
ond y fam yn plygu i'w chlustiau
lepian yr ymddiriedaeth
a fyrlymai
yn ddigon araf iddo'i
chasglu mewn canol oed bob tywydd
fel cyfarth corgi sy'n
gyrru â'i chlust lafar syfrdan
siglo, siglo hyn o hyn o fywyd

swigod llaeth fu'i henaint milwr
bach yn och ebychiadau
o galon drymiau nes i'w acenion
aeddffedu drwy wybod
y byrlymau 'allai ddatrys

rhigwm mân
gan un mor syml â'r martsiomarw
sy'n pallu marw ond a fyn ei hwian
beth oedd hyn
ond pâr o swigod mewn trowsus rhwygedig geiriau'n
dysgu siglo ymlaen o hyn o fywyd

nac ofner ail blentyndod felly
gwranda lythyr-gludydd
si-lwli-bei
swigod hil sigl wiglo
yn drydydd plentyndod i'w hel
dônt bob cornel
ust dy ddwli'r hen sain-ffagan
friw wele ymson swm
gorymdaith fry dy gromosomau
fel enfys o iaith mewn plentyn newydd yn para
a swbach chwythwyd gan wynt tua rhai i wado ymlaen

BENDITH RHAGFYR

Yn niwedd Rhagfyr mae'n pren-na-phren-afalau
yn dod at ei goed. Llusgir ef gan y corwyntoedd
tan sgrechian, pan ymaflant yn ei war, nes ei fod bron
ar ei liniau'n erfyn rhesymoldeb. Ymhlith y gwyntoedd,
ceir un — gwryw — Bendigeidfran yw'r enw a dadogais
arno, yn big i gyd i'r oed

ac yn hysbys ymhlith pigau,
arweinydd y gatrawd, bencampwr lladron afalau. Druan bren, hwn
sydd megis bardd yn cael ei eni. A pharod yw i rannu'r gyfrinach:

'Fiw i fardd fod heb elyn. Y gelyn sy'n gwydnhau'r
gerdd nas anadlwyd,

a than ei thipyn gwynt —
tocia, gwrthyd, dyry, a thyn Ben allan, drwy'r twll, y gair nas ceir
o arfer. 'Dyw'r gair ddim yn cael ei eni'n aml, er ei fod
yn disgwyl; dim ond pum gair y bore 'ma, un gair
y prynhawn. Bob amser mae'r prynhawn yn llai.

Fan yna mae'r gelyn. Fyddai neb am gael ei weld wrthi
yn un o'i brynhawnau gelyn. 'Dyw ef ddim yn ei wneud
os gall beidio. Ond pan fydd yn ei wneud, gŵyr beth
yw eithaf ias. Lluchir gwynt at y sill, y lluchio clais sydd
y tu hwnt i'r llachar.

Llefa fewyrth Ben ar y pren a'r blew
sy'n dal yn dynn wrth ymbarél ei lygaid cau,
gywely gelain, bob ffordd ohono

wedi colli'i ffordd mewn gaeaf o fydysawd, mae'n deffro
dan ddibynnau o forthwylion llyfr, tan fflangellu'u meingefn,

a miliynau o gwympo'n hyrddio geiriau heibio i lygaid
y bardd, a'i felltithio am fwy o flynyddoedd dibenblwydd
nag y mae'n gallu'u cyfrif

a throi'u hymbarél y tu mewn allan
fel ysgerbwd heb ei esgyrn.

Heb y rheini, dynol fysai iddo'r dihuo. Mor bigog
â thywydd y ganrif hon yw gair i fardd... Beth! Dim ond

canrif! I'r dyn a fo'n darfod o flaen gwynt, y mae
'dim ond' yn werth milflwyddiant,

yn werth darfod. Ble arall

yr awn i hel iaith? A phle i gasglu'n malurion afalau?
Y rheina a sylweddola mai'r gelyn yn y gynffon yw'r un
a all gnoi clust ambell wynt, ac mai cyfaill a gelyn
gyda'i gilydd yn unig,

wylo a chwerthin gyda'i gilydd
yn unig, a wêl byth Ionawr. Digon heno i ddeilen grin
yw na rega ddim o Ragfyr.

CERBYD GWARTHEG I GENEDL

Cerbyd o ganrif, a phob Sabath yn ddrewdod gorlawn.
Yn dreigl fel Iddewon — hyd gorwel gweirglodd
mae fy ngwartheg tirion

(a ymguddia y tu ôl
i llygaid synwirion fel cleifion mewn ystafell-
aros meddygfa, gyda pheswch Hebreig stond
drwy'r llygaid mawr a atega'r ager sy'n dirwyn
o beiriau'u gleiniau-cefn yn y glaw cynnes pigfain
tan blygu'u gwyleidd-dra yng nghrwyn ei gilydd,)

yn disgwyl â'u hesgyrn du-a-gwyn ddrych teledu,
ym mhen cae gorlawn o borfa.

Gwylia'u llygaid cawr raglen ddu
-a-gwyn am hunllef y pedwardegau. Torrir llon
Sabathau. Dim newyddion ac eithrio argoelion
tywydd, a heb sôn yno am brisiau'r farchnad,
ymwasgant y tu ôl i'w golygon. Mudlosga'u
hamynedd dan y mwg a alwn ni'n gof.

Ni wyddant nod: ni wŷr y byd ond gwylid
ddim namyn greddfau'n tin-droi uwch eu ffroenau
a'u trwynau'n troi ar gopa'r cae

tua'r weiren bigog.

Gwartheg yn disgwyl eu cerbyd, acw â llygaid gwag
gan ddiddanu'r oriau drwy wyllo teledu awr neu ddwy.
Ond swilio wedi bod yn boldagu, a'u tethau'n
gwrthdystio, a'u cynffonnau'n llyfu'r gwybed
glaw nes daw galwad godro, a wnânt. Eu cig
unig sy'n ddisgwyl (tan gnoi cil hil-laddiad

fel cerbyd gwartheg heb bwyso heddiw fusnes y llonydd.

Nid ni biau'r gwartheg; eto'r rhain, dwg eu hanghof
yn amyneddgar ar hyd cerbydau'r canrifoedd di-rif
o'r dyfnder — nid fi, saif sawl

cerbyd-gwartheg diflino,
yn gymwynas nas gwneuthum, teithiant tan ddiwedd
hyn o fyd, a thrwy fwg eu buchedd o fuchod
heb wlad na phasbort, anadlant — drwy'r blew
ager o'r cefnau plyg dros filiwn o'm simneiau bythol
Iddewig — fref: casgler eu dannedd, a'u sgidiau ar gledrau

yn fy enaid. Hwylia'u cerbyd drwof, yn hir fel cof,
mor felys eu tail i wrteithio'r ganrif wythnosol.
Alla-i ddim dianc rhagddynt), yn coch ddisgwyl
drwy gydwybod heb dreiglo i unman, ond i galon doredig.

Dowch allan o'ch canrif, fy mhobl,
o'ch hers hyd weirgloddiau cyn tagfa draffig y pen.
Mae rhai cenhedloedd a â i'w tranc mewn cerbyd noeth
heb sgrechian dewrder: i eraill mae'r cerbyd yn foeth.

A'r tu ôl i'w llygaid llugoer penagored heb-wybod-ble
yr igia'u hegwyl i ffermwr agor gorddrws beudy
gyda rhai llai amyneddgar na'i gilydd a'r ager o hyd
yn clegar dreiglo oddi ar eu

penglogau ddydd brau ym Medi.

Ac ymadawant hebof, a mi heb eu caru ddigon, lond llawr
y cerbyd o ddrewdod fy Sabathau. Cânt ffoi fel cydwybod
i ffansi fy llygaid o'r weirglodd ganrif fel ar garped hud.

CAMRE CARBON
(i) ÔL TROED Y NEF

1 *Y Seintiau*

Nid erom ni y crewyd yr ynys, na nid i ni – a byddai'n
chwerthinllyd ystyried am eiliad fod ein Henlli a'r wŷn
ar Enlli'n cofio'n briodol pa bryd, nad ar ein cyfer ni, –
ond mai wedi'r Cwyp Du y rhoiwyd pob copa di-wallt
o'r miloedd o seintiau carbon acw i'w pridd mesuredig,
– onid fel y mae
awyr yn eu cofio. 'Pwy yw'r rhain?' yn ddi-hawl heria,
am y rhai gwyn a ddaethai fan hyn i fyny i ddawnsio.
A fuddsoddwyd eu cymdogaeth mewn bro'n gofadaill i gyfodi?
Neu ynteu a gofiwyd y to a gafwyd cyn gofid y tir?

Fe'i crewyd er clod. Bu'n fod er mwyn dod yn dŷ.
Yma, ers tro, yn fath o haenen, bu'r ynys fan hyn
o'n blaen. Fe'i lluniwyd gan seintiau'n fflamau o'u chwiler cudd.
Rhai pellennig fu'r rhain a ddaethai i anadlu danom
ar ran y Môr Gwydr, nid er clod i'r tonnau clai. Hwyl fu'r ffydd
a gladdwyd er mwyn ei hanghofio dro, y daioni a guddiwyd
mewn mawn fel na fedrai gorffennol eu hatgof ein cyhuddo.

Er eu claddedigaeth hwyl yr adeiladwyd honyma'n ynys.
Lle buasent hwyl'n wlad, llunio gardd a wnânt hwyl mwy, –
nes i feddyliau du'u tyweirch gyfodi o'r diwedd yn ynys
sy, yn ei hanfod, yn rhy fychan i saint, a'n hatgoffa ni oll
am lan dyfiannol dan lanw gwae... O! Gwae. O! Gwae.

Gwae'r genedl na rydd yn ei phridd beth carbon byw.

2 *Ein hamnesia ni*

Hynny a anghofwyd. Hynny a rofiwyd i'r pridd.
Bychan yw atgof tir. Llai byth cof carbon wŷyn.
Pwy 'gofia'r rhain oll? Mae'r nos mor ystyfnig farw.
Wrth i'r saint godi'n atgof, angof yw'n chwant ni o raid
rhag iddynt wreiddio ynom. Ffansi fyddai synied fod
y creaduriaid isod mewn ffrogiau gwynion
am durio i'n distawrwydd heddiw ger Aberdaron
er mwyn i'w sanau gynhesu'n traed dan dyweirch mud.

Eto, wedi'r aeonau ynni o anghofio seintiau'n swnt,
brefant mai brithgof oes, a gyfogir o'r tir a siglwyd
gan y môr a ymyrrodd yn ffordd slent, ac iddynt hwythau
gael dihuno sbo, yn bridd o dan bridd neu beidio
fel yr erlidiant ryw adlais mân drwy'n holl amnesia.
(Nac anghofia'r to rwyd. Ar gyfer y fath fro y dechreuwyd
adeiladu i lawr mor araf i lawr tuag atgof tir.)

3 *Y carbon yn codi*

Nid rhwydd fu i'r carbon anghofio isymwybod gloes.
Megis y cyfyd glo heddiw i farnu'r byd –
felly, y carbon cudd hwn, a luniwyd ynghynt o saint,
er ein hymadawriad dyfal, yw'r llog 'fydd i'n cyfog cyfoes.

Y saint eu hun a'n cofia; mi hedant yn had yn eu hól
yn eu fflam, a'u fflam a'n derbyn gyda'u gweddïau garw.
Ac yng ngwawr-ailalw-gwirionedd, dichon... fe ddichon
y diachwyn ddringant hwy'r clogwyn... o fewn eu clogau can...
wrth i'r cof anturio ar hyd brigau glannau'r ynys, i'n dychryn tost,
y cof na chrewyd erioed byth un heddiw hebddo.

Bob nos, wedi aros trwy'r dydd dan dir rhag môr
mae'r ugain mil o adar drycin Manaw
yn mynnu cropian i'r golwg, crapio'r wyl,
cripian â golau eu boliau i hollti halltwyntoedd.
Anelant o dwnelau, yn isel ar draws ein melltith
i buro'r nos heb aros. Hwyt-hwy uwch sain y Swnt
yw'n seintiau'n hau hen wyndra'n gorddiad cathod,
i'n gwreithio â hen hen ddychryn eu sancteiddrwydd.

Och saint o hyd! Nid fel Dai yn segura ar ei gwrcwd
ar gornel stryd ymhlyg, â'i ffâg, heb gofio am rithiau,
yn ceisio datgofio golosg ger y distyll gwyn,
nid fel y merthyron chwaith a losgwyd gynnu ar stanc
i gofio'r holl wanc a aberthwyd. Nid felly nynt yma chwaith;
ond fel carbon o'r isymwybod mwg yn cwrcydu'n syn
mewn ffigurau cladd. I'r fath garbon fyd y cyfogir Atgyfodiad.

4 Gwreichionen yn para

A'u fflam a grwydra fel toili ar draws y tyle.
Os anghofio 'wnaethom ni, nid felly mo hyn o olau.
Ar draws y Swnt morthwylant frithffydd allan
o'r ddaear, a'i credasai'i hun yn berchen corn,
yn fòs ar bob un gelain friw, yn ddiwedd
ar unrhyw lwch a fentra o'i dwannel a dwyn.

Dacw hwy'n cripian ar leiniau ein gorwel swil.
Ond nid perchnogion byth (pa wreichionen sy'n gyfalafwr?)
yw neb: benthycwyr ydym. A ffosfor o'r ffas
dan bridd oherwydd eu ffydd cyn diffodd meddwl
fyn ddianc rhag angof, tan luchio arnom galon wreichion.
Daethant â'u gwreichion mewdol i wgu beth ar amynedd.

5 *Gwisgo 'u clogau*

Canys nid er seintiau tros-amser y rhiniwyd yr ynys hon,
ac nid er mwyn bri. Rhoddwyd ynom ni garbon achlân
er mwyn cynnau canig a gofia blyg wedi para daear.
Cyn ein bod, paratowyd tywyn i losgi calon
mewn coed, cnawd, troed, brawd ar dân, a mymryn o wawr
'wyddai'r rhagor rhwng tir bach yma ac acw'r mawr.

Ychydig o ddillad fu gennym pan ddaethom i'r byd:
llai byth fydd gennym pan awn ni oddi yma
onid esgorir drosom, er ein gwaethaf heno, ar frithgof noeth
o glogau seintiau fel bwganod llosg-eira ar hyd
llwybrau llosgeira. Rhowd y rhain i rolío'n duswau cnu
a dawnsio'n wyn ar draws ein hynys ddu

led pymtheg canrif wedi taenu haen goleuni
yn wisg i'n brasbridd, heb fyth ein rhamantiaeth ddiniwed
dan eu haeliau hael. Am losgi'r ynys oll yr ym,
i hwylio eli coelcerth ulw i oleuo'r wlad
benbaladr heddiw, ac o bosib ar hwyrnos lwyd
fel hon i oleuo gwisg Aberdaron am hydred tamaid,
ac fel yma'n frwydr y cyferfydd ein du mewn gwyn.

6 *Fflam y llwyr wacáu*

Dilyna di'r goleuni dwl... Dilynsai'r glân ers talm.
Nid drwy symlder peidio â gwybod yr atgyfyd neb.
Mae'r sawl sydd eisoes wedi cael blasu tyllau'r tywyllwch,
dan ddaear a'i galar, yn barod i burdeb gwydn.
O'r herwydd, dichon, ie dichon, y bydd y rhai gwirion
ynom yn gallu cofnodi trwy'n traed ryw atgof felly
er mwyn anghofwyr y dyfodol, ddawnsywyr trwsgl.

Eu carbon cuddiedig hwy a'n cyhudda ni heddiw
Felly y dengys y tir twp hwn ei lwydd er ei fod
fel pe bai'n wag, fel twll, — ond nid yw — fel pe bai'n
methu ag allforio — ond nis gwna — onid bwlch bach bach i'n bwlch.

Mor wyn y myn ewyn ein hwylo. Gall dosturio beth wrth ein sâl môr.
Eithr er ein gwaethaf hwylia'r wlad galed hon yn ei blaen
tua'n cof, wedi'i goethi'n ddysg gan dân annisgwyl.

7 Ymuno â'r llwch

Ennyd yr es i'n ddagreuol wrth syllu ar hyn o fad-ynys,
wrth geisio meithrin aeonau a fu yn ynni i'n cof.
Rhaid imi feistroli cryn dipyn ar yr hwylio hwn.
Pa lwch fu'r llyw? Sut nef, dwed, sy acw dan lawr?
Drwy win seleri y tyn y fflam trwy'i thraed, a'n hachub
nes 'lan y coesau, heblaw sug i gerflunio blodau,
y cura'u metelau lliw a'u gyrru i orohian cân

gan y meirwon mân. Mae'r afiaith a dania'n donau
fel y coeliwn mai dawns y mud a fu yw'r un
a gela'n coegi, a sieryd yn chwil o unedig
â'n cyfwng cyfyng. Drwy'r ystrydebedd lluosedd
hwynt-hwy yw golau'r llais a'n glŷn yn llun,
y baw a chwyth drwy utgyrn aur yn betalau tila.

8 Terfyn terra

Nac alarer, Swnt. Paratöer, O! ddefaid carbon
â pharddu o Enlli erbyn terfyn twt y terra. Ond ofnaf
na phrofir ffrwyth yr iâ diweddaraf ddim cystal
o'r hanner am fudlosgi wedi'r caledrwydd a gadwyd yma
ers oesoedd pys.

Eto, dichon, cyn rhewi Swnt
pob angof, pan fydd lloer yn fenyn llwyd y clywir
rhith gwreichionen ei hun, hafal i'r glo gwyn hwn odanom,
wedi dod i esgus ddawns y gloesen, a'n danoda
(yn ein dannedd, ers oesoedd Cof cyn cof) am godi gwadnau.

Mor barod y ffown rhag gwybod ystyr y ffair.
'Ond rhodder ôl eich carbon chwithau arnom ni.
Fydd neb yn unig wedi'r ugeinmil a fu.
Llefara, fwg, dy rybudd drosom nawr tra sudda'r fad-ynys.'
Felly'r ffigurau hyn danom a gryn amdanom mewn gwynt.

9 Na, nid i ni

Na na, nid i ni yn benodol y crewyd yr ynys. Eto,
diau y cofia Enlli Ddall ein deall tlawd.
Daw ei tho i lawr i chwalu peth wmbredd o'n hamnesia
cans gwaedu 'wna'n llygaid oll, oni'th goleddwn Di.

Ac eto, nid atgofion yw'r hyn sy eisiau arnom mwyach
ond saint gwrychlyd, barus, newydd danlli grai eu gradd
sy'n gwybod eu colled ac sy'n nabod, mewn gwybod, y du.
Y bywgof yw'r un sy'n meddu'n meddyliau heddiw.

Dyhefa, hiraetha'r ffridd am gredinwyr ffri
i'w cnoi yn bwylllog, nos, a'u treulio'n ddydd.
'Rhowch ŵyn afradlon llawr ôl-carbon arnom
fel na ddeallwn un nes deall oll.'

Adeiladwyd, do, y dreftadaeth hen hon gan deulu.
Mi gofiwyd y genedl i mewn i ysbryd gafael.
Gwae'r wlad na chaiff gan feddau gynnwys addas:

gwaе'r fynwent nad yw'n rhan o genedl fyw.

Ond gwaе pob tŷ, fy Enlli, nas adeiladwyd gan do.

SŴN EILIAD AR FFENEST

Carasom y ffordd yr elai'r eiliad i guro
nid ei hadenydd, ond ei gogwydd ar draws y ffenest,
ei hystwythder cegin, a'r coesau cwta cyrrith
mor sibrydus ac eto mor anghloddiadwy onest.

Casglasom y chwerthin am ein pennau'n hunain
i mewn i'w hennyd hi ger ein ffenest. Pâr
o gymaint angerdd yn ein tipyn curo yno!
Gynifer o flynyddoedd gan bwysigyn eiliad wâr!...

Ac ar ei hôl, cur canrifoedd o unigrwydd sydd
wedi ymgartrefu, gorwelion o beidio â chlywed
gwên ei llais, na'i hanadl goll ar ben pob mynydd,
nes y try'n fydysawd daran mewn cegin fân ar led.

DILYNIANT AR BEIDIO Â SYMUD LAWER

1. ILDIO'R LLYTHRENNOL

Hen arfer ofnus gennyf
ddod yn drosiad i mi fy hun:
dihangfa seithug weithiau
a'm ceidw ar ddi-hun.
Doedd dim yn wir lythrennol
nes im weld y sêr a'u plant
yn denu fystyr o'r geulan
i foddi yn eu nant.

Po gryfaf y bo'r tasgiad
mwyaf mydr y bom:
mi ddawnsia drosom nos yn noeth
uwch lloer fel acen grom.
A dawnsiwn y tu allan
i'n cyrff am foment brin,
gyda thymestl gain yn gwyro'n sain
o fryniau'n drosiad syn.

Eto, 'does ar gael yr un gwichian
sy'n ystyr oni thry
yn drosiad. Pren fydd credu
heb fudo i ddaear oddi fry.
Erys pob ffaith yn ddiffaith,
a thon yn sych mewn traeth
oni edy'r gwynt i'n cegau
eu trosi gan chwythad chwaeth.

Ac felly, mynnwn symud
y gair heb symud lliw
yr ystyr nes bod i ystum
i feddwl feddwi'n fyw.
Felly, heb syflyd lawer
daw pawb i symud beth
drwy'r sŵn mewn synnwyr i synnu
o weld eu bod yn bleth.

2. BYWYD LLONYDD (term arlunio)

Llefara'r afalau am fwy na rhuthro i'r stryd.
Heb ddweud dim, nid dweud celwydd yw.
Gymaint rhagorach ar ford yw buddugoliaeth
tewi, a'i wybod. Dweud hefyd yw peidio â dweud.

Ond nid ydynt yn 'difaru heddiw iddynt droi
i droi'r distawrwydd yn amheuthun o gylch crych
eu cegau sych. Blas o ynganu'r dim, a blys
afalau, ac artistwaith 'nawr yw gan eu Crëwr

eu taw o flaen Peilat heb fraw am ddim, heb ddweud
fawr ond atgoffa pob newynog yn fud am faeth. Fe'u
dwedwyd mor ffrwythlon; a gwridasant yn y llonydd
ar ford am ras yr adduned drwy ganrifoedd

o arafu rhag rhyfel mewn perllannoedd, a'r un pryd
am ddaioni'r bore mewn crud cul ar ruddiau babanod.

3. DERWEN

Mantais yw bod yn dderwen,
sy'n hyblyg heb wylltio

fel na hyllt yw crymu hwyrfrydig
yn y myfyr — bob amser
yn ddethol addfwyn —
tan symud yn ddigon hamddenol
mewn tyfu. Myfyrion yn cylchu
breichiau'n araf fewnol heb ddim
disyfyd. Tro oediog ar eu harddyrnau
yma; tro celfydd i awel nad yw yno chwaith.
A'r fantais yw newid bydysawd
felly'n llwyr heb i neb oll gyfrif mai
yn fy nghalon hefyd y bu'r awydd i gylchu
yn goleddus fel y ddi irderau yn ddwfn
yn gylchu mud am fy holl ddistawrwydd mâl.

4. AR GARREG WEN YN AFON RHYMNI

Yma, heb symud cyn amgyffred rhan,
rhaid dirnad y cyfan. Sefyll 'wna Carreg Wen.

Amser a wna Le'n gartrefol: â'n gynefin ag e.
Heb amser, ni cheir mangre i fyw. Gelyn i Le

yw gofod, fel y mae 'partner' i 'briod'.
Ond Amser a'i tylina'n delyneg.

Fel arfer, fe ddigwydd 'gwneud' gan rywun
i rywbeth mewn Lle; ond yma mewn gwagle

ar gefn y Garreg Wen, mae un amser du'n
arafu tuag ati yn rhythm Afon Rhymini,

yr Amser a wna Le'n neuadd gladd i ni
heb fudo fodfedd oddi ar y Garreg.

A'r afon hon, hi 'deifl raff serchog am lun
y Garreg hon er mwyn oedi arni ychwaneg.

5. UNFFORDD

Eistedda'r groesffordd ar y trempyn
ger gwahoddiad rhad o loes,
a'r loes yn arwydd. Cariad
'droir iddo'n wydreidiau o glais.
Welsoch chi neb erioed
a gafodd ei dorri,
a gafodd ei lorio
mor llawen; na dyn arall chwaith
mor orfoledd ei graith
â'r trempyn disymud hwn dan ben ei daith.

Mae trempyn yn cyrraedd oedran
pryd nad oes dim
yno onid Duw.
Ceisir gweld blodau'r ardd,
ond cânt eu disodli,
neu o leiaf, rhoir hwy o fewn cyd-destun,
(neu'n hytrach rhoir y 'cyd-destun'
ynddo ef). Dduw ar Dy liniau,
yno rwyf Ti'n ei gasglu ef (neu'i anfeidrol symledd)
ac yn llefaru, wrth ddyn, ddiidewis ddawn
o ddiwedd.

Y groes yw'r groesffordd hyd y grid

lle yr eistedd dyn
mewn rhacs a fu'n
gwingo am Un a grogwyd yno,
nes dinoethi gwarth
heb symud gwaed
na chwŷs, heb adael dim yw dim
ond Llyw
a'r truan stond yn ddyd 'gadd nyth yn Nuw.

CHWILIO AM GWSG YN NULYN

(nodyn: Mae gan yr awdur freuddwyd thematig gyson achlysurol a ffeiliwyd dan y pennawd 'Ar goll yn Nulyn.')

1. *Ticiadau*

Mae gan y co ddyfais o diciadau cêl
i'w helpu i herio ymylon cysgu dygyn.
Heb fentro'r bodiau yng nghanthro'r dŵr,
dywedant: 'Mae popeth dihangus yn nhuswau Dulyn.'

Ond gwell yw hyn: 'rholia yng ngwrthwynebiadau'r
“Diamser” dewr. Os na hoffi gerdded gwely
gallet hoffi anwes arall; bydd cwsg yn gysur
pan na fo'n cerdded; gwranda, co, gwranda

ar gamre nas cymerwyd; camre fel marw
ond yn llawer mwy cwrtais; estynni, estynni
at y tro yn yr awel pan gyrhaeddi'r erchwyn:
caiff dy gloc dy hun yno yna lanastr o oleuni.

Amser? Atalia ddefodau o'th orffennol.
Cau ddrws ar bleserau ei wacterau prin.
Na cherdda. Ac “Aros” yno a etyb y dilyn
dwl dro nesaf, pan fyddi ar goll yn Nulyn.

Wedi colli dy glai, ailhawlia gollineb yn “ni”
ac Aros mewn tymp dyfodol nas gŵyr y llu.'

2. *Ond myn y Wawr ymyrryd*

Mud fu lliw dy nos, ond ynddi i fyny o'i migyrnau
clywid sêr yn meiddio sisial llewyrch poen,

cynyddai'r sŵn cochni ledled paent y dyfroedd
eu cerrynt tân yn rhosynnau prin, o gylch ei chroen

cynyddai'r cyd-deimlad o'r wawr wedi'r methiant neithiwr
tan dasgu'n boeth – fe'i hailffurfiwyd ar liniau'n ynni,
tan ymdrechu i ddringo creulon crych ei chluniau gwyn
dechreuai darnau o gorbwll grybwyll brochi,

wedyn gwelwyd lleisiau acw, sain her i'th synhwyrâu,
am ddryllio'r holl fflodiartau, hwynt-hwy'n unig
a fyrlymai hyd fol dros fflamau newydd a ffynnon,
drwy hewlydd, yn sgarlad ar sgwarau poblogedig

megis dilyw cymylau yn nannedd addewid enfys
i'w sgeintio'n ddryll-wyn dros arch haleliwia laid
yn ysbyty lliw. Ar ôl traenio'r düwch anhunedd
mentra'r nyrs estyn gwefus dydd â'i throsglwyddiad gwaed.

3. *Enfysau*

Dw i ddim yn arfer
bod yn gwmwl,
ond y bore 'ma, mae hi'n
bwrw glaw
a meddyliaf 'Man a Man...'

Dw i ddim yn arfer
meddwl 'Man a Man...',
ond y pnawn 'ma, mae'r haul
yn edrych yn neis
yn caru dyn sy'n gari dym
a meddyliaf 'Be di'r ots...?'

Ai arwynebol ar y naw
yw'r hen grefft o baentio
pontydd cwsg ar wybren?
Mae yna haul mewn nos ac mae
yna law. Ac mae pob un
ohonyn nhw'n hoffi paent.

Y TRO OLAF

Rhyw fath o drwyn dros ymyl blanced. Clust
yn ceisio gweld, na, doedd dim daear mwy
a haeddai synnwyr nac a geisiai'n drist
ei chynnig ei hun gan law y nyrs ar lwy.

Roedd rhywbeth dan ei dalcen yn llygad ei le
yn gweled ym mhob gweithred weili 'wnâi
na allai dros ei grogi ennill ne'
drwyddi, ac ofer y chwys na-fedrai-lai.

Gwelai mai twll fu oll, siâr goll o siarad.
Felly, pan gyrhaeddodd lan yr ochr draw
'chafodd ddim sioc wrth weld ger porth y Wlad
domen sbwriel o weithredoedd ar un llaw

yn fân ddisylw o salw. Drwy'r golau tu mewn
i'r Wlad ei hun synnai fod ynsoedd aur
yn gallu bod mor fawr. Fe feiddiai'n ewn
hwylbrennu atynt, a'r talcen heb ddweud gair

am ddim a fu, am ddim nas collwyd, dim
ond canu lond ei waed, a'i draed yn rhydd
a newydd-newyddedig, heb un grym...
fel nos a ganfu am y tro cyntaf ddydd.

AR Y GWEILL

Casgliad penagored yw'r hyn a gafwyd hyd at y tudalen hwn. Bwriedir ychwanegu ato o bryd i'w gilydd o blith y canlynol, a diwygio cerddi eraill cyn eu gollwng i mewn. Dyma rannu gyda'r darllenydd rai o'r cerddi sydd ar hyn o bryd, mewn math o ystafell-aros, yn disgwyl eu tro.

WEDI I'R ADAR BRINHAU YN HUNANLADDIAD Y BYD

1. *Aeth y Mileniwm*

Ble'r aeth yr adar cerdd?

Gwanc.

Beth 'gân yn eu lle hwy?

Tranc.

Pa hedyn gwanwyn 'gaed?

Byd.

A ddaw amryw yn ôl?

Mud.

2. *Y Goeden Fewnblyg*

Ond yna

Clywid chwyrlïo'n

Barhaol

Mewn cainc

A'i adael

Yn ddolen

Wrth estyn

Ceinciau'n

Dôn gron

Bob gaeaf

O'u cylch

Tu mewn

I'r ffurfafen

I'w priodi

Fe'u tegir

Gan un
O fodrwyau pert rhuddin
Pren
A droes yn aderyn

3. *Adar yn Datrys y Broblem*

Beth a ddwed eu carbon
Am uchder a hyd?
I ganwyr mae nef
Yn fwy na'r byd.

Eto, mae pobgwlad
Yr un pryd
Yn famwlad yn
Eu gwaed i gyd

Oblegid tu hwnt
I'w gofid clyd
Mewn uwchwlad mynnant
Fynwent o grud.

Cans mae gan adar
Garbon di-fai,
Uchod yn aer nef
A'u dibwysedd nodau.

4. *Wedi blino heb enfysau*

Wedi eu wado
aethent i led'u cysgodion
ar draws cymylau. Lledasant
eu hadleisiau yn ffynhonnell

i'r glaw. Trawsnewidiwyd hwy'n
atgofion hedegog. Mae'u habsen
trydar yn fraw. Mae'r adar
a fu'n enwog anwel wedi cael
rheswm. Celfwaith mewdol ŷnt
ynghwsg mewn awel yn nilyw'r
wybren, ffuglen o leisiau sêr.
Taw-wyd ffyrnigrwydd eu gwacter,
mae'r dilyw'i hun a ddringa i'r efallai
uchderau yn twitian enfysau annwyl
tan hirddisgwyl diflaniad dynoliaeth.

PLAS Y BWCI A DEDDF YR IAITH A ACHUBAI'R CWBL

I

'Gwacawyd', tyngai'r poster ar y tŷ.
Nis credwn i. Adwaenwn i y lle
Fel plas a logai seiniau o'i ddau du —
Bwganod ysig oesoedd. Seiniau, ie,

A symudiadau chwith cysgodion sur
A hawntiai'r holl sgaffaldwaith. Ar y pâm
Tu faes bob hwyr, fe ellid ymglywed â chur
Eu hadenydd. Anelai'r rhain heb gymryd âm

Am leuad. Drwy wastadau'r wlad, y rhain
A ddysgai fod 'na ddoe ar ôl yn ffug
Gelu'r iaith megis glo dan galed lain
Yn wythïen hyd fôn pren. A chloddiwn sug

A lanwai'i risglen unwaith. Ond wele nawr
Yn erbyn y ffenestri, gan ddryllio'r drws,
Guro a suro, paru a charu bod,
Y tasgai diddeilrwydd yma'u habsen awr.

2

Tu faes caed mynwent deg. Ac ynddo'n dwt
Roedd bedd gwahân i faban cyn i iaith
Ddod i ddifwyno'i feddwl â fframwaith llaith.
Ac wrth ei ochor wlyb mi gladdwyd crwt

Nad Dyfedeg a dorrai, er ambell nod cyffredin.
Gerllaw ceid llencyn mud ei siarad rhwydd

A dofi difedr yn ciprys â'i aeddfedrwydd
Honedig. Heb lafar? Ceid rhengoedd wedyn

O feddau henoed na chlebrent am hen oed.
Gair arall?... Hyn! Mewnfudwyr cyhyrog cry'
Drwy'r canol: rhannent faes i gad a fu
Â brodorion diog a'i hawntia o'i ben i'w droed.

Blasent y sillaf. Bradychent bob cywair lleddf
A dychwel, i'r plas fwanod. Disgwylient Ddeddf.

TORRI OED MEWN FFAIR

mor dew ydoedd cweryl
y tywydd a'i farn
mae'r nos wedi cyrraedd
a'i gwynt yn ei dwrn
yn barod i barau
heb atalnod un man
merch fach heb ei rhwystro
rhag casglu'i chlod
heb ofynnod yn gudd
ond ei dwrn yn y gwynt
wedi ffoli ar oleuadau
toredig Nadolig
sy'n daer am eu c'weirio
heb ganfod yr adwy
a osodwyd mewn wrn
gan oes mab a merch
lle mae'r nos yn moyn llithro
ar eira eu ffydd
yn clegar chwyrligwgan
rowndabowt Gwyn ap Nudd
mewn ceffylau glân sgleiniog
tan din mab chwerthinog
beth wŷr hwn am olchi
ei glustiau i'w sbri
o gylch cylch a ylch iddo'u
llestri clai ar bob Dydd
Calan iddo ddod yma
i'r ddaeth-ond-un aros
oherwydd i'r hin rewi'n rhydd

DRYCH

Beth 'ddwedaist ti wrtho?
'Dim ond ffŵl hollt a hyll.'
Beth 'ddisgwyllet gan “dwill yn y wal”?
'Dim byd ond dryll.'

Y blynyddoedd gynt 'fenthyciaist
ganddo, beth 'wnest ti â'u hoed?
'Dim oll onid eu sathru
O dan fy nhroed.'

A chwympaist ar dy din
o flaen mab y drych.
Bwmeráng oedd ei chwerthin;
ac wylai fel llun.

[nodyn: 'twill yn y wal': peiriant sy'n rhoi benthyg yn lle banciau]

KAKABEKIA BARGHOORNIANA

(Sleisen oren feicroscopig, organwaith a gafwyd ger Harlech, ym 1964, y ffurf hynaf o fywyd ar y blaned a oroesodd yma yn ôl gwyddonwyr o Havard, wedi bodoli ers 2000 o filiynau o flynyddoedd, a chaniatáu tynnu neu ychwanegu rhyw filiwn a hanner, yn ôl yr arfer.)

Wrth nesu at y ffos yr wyf yn closio
at Kakabekia Barghoorniana.
Yn ddirmygedig, fel ni i gyd, ers dwy
fil o filiynau ar fin oer pob ffordd,
ger Harlech swmerai hwn, ac ef
yn fyti i Fendigeidfran, yn rhy fas
i gas Efnisien. Oedais innau
rhag f'esblygu ryw ennyd fach
er mwyn ei ddihuno a chael peth sgwrs.

Dod a mynd oedd byd y môr;
mynd a dod oedd rhod y rhedyn
o Fatholwch i'r Brenin Siôr;
tyfai o gell hwn gelloedd wedyn.
Kakabekia, o fanwl stelcian,
est â'm *mañana*, Barghoorniana.
I beth? Paham ei dynnu o'i hun
i'm breuddwyd i? Dw i ddim yn gwybod
faint o draed a geid gan enaid
pry cop; ond mae gan hwn fwy i'w doddi
yng nghors fy nghwsg. Kakabekia
Barghoorniana sy wedi mynd â'm bryd.

'Amynedd', meddai'r creigiau'n ôl
eu harfer. Ond pa ddysgu (dim lot) sy
i'r smotyn na chasglai ond canrifoedd gan a fu?

Ar draws ei dalcen rholiodd dafnau chwys
o amynedd wedi'r can miliwn cyntaf
heb fawr o les, a llai o bres: i beth?
I fod yn gasglwr? I'n goleuo rywfodd?

Ceisiai'r awdurdodau ei fagu yn
ddwyieithog i lysnafeddu. A phrotestiai
ef yn weddus gyda'r werin, heb wneud dim.
Gwyliai sarhau'r glob. Gwyliai ffidlan pres.
Ond listiaf Ka (os ca-i fyrfoddi'n gyfeillgar
felly) i fod yn arddangosfa o'r ffordd
orau i fihafio gerbron y Cymry.
Fethiwsela'r milenia twf, heb chwant hel
gwacter pur i'w ddyddiadur gwag.

Felly, ni wna ambell beth yn hyn
o fyd namyn hel amseroedd.
Os holwn ni yn nannedd ein cyfnod bach, –
'Beth wnest ti? Sut wyt ti? A pham?' –
'fyn ef ddim yngan dim ar fin
y llwybr dan grwybr y gwllith a
dadrith pob amheuaeth ond un sill
fuddugoliaethus, 'Wyf', a fi heb ddim
o'm heiddigedd arferol, atebaf 'Wyt.'

CHWARAE CARIADON

'Dysgwr yw e!' Gwawd da. Fe'i bwriadwyd i'm gwneud yn isradd, ond isradd wyf. Fel y dysgaf beunydd ger dy fron beth o ddirgelwch y pererindodau dweud drwy wrando ar rai helyg o'r amryw sydd ynod, felly y dysgaf beunydd yr iaith gerllaw sy'n gylch yn ffrydio'n araul blithdraphlith brwyn yn araf. 'Dysgwr!'... Ond ar dorlan yn fy nghopa a fuasai farw, ni wyddwn mor hapus y gallai fod fy nhraed yn ffrydiau'r tafodieithoedd; ac felly ar liniau glannau'r ferch estynnaf gledrau fy nwylo at eu harddodiaid melys a fyn led-ddysgu. Dysgaf o hyd y byd. Ni chaf byth dan dy helyg ormod.

Yn ddygn gwrandawaf ar dy newydd-deb cliw, dowciaf yn ei dafn, ei nant, ei heigion, a'i dibendrawdod yn cuddio tu ôl i dir, palfalaf oherwydd bod iaith hithau'n ffrydlif gig y piciaf drwyddi. Ymddiriedaf yn ei llethu lliw, bob ffrwyth a ffridd. O! fel y myn hi yma fy myw. Felly y cyflwynaf fy nghalon gêl i ti. Tywysoges wyt, a honno hwnt i allu iaith. Chwi'ch dwy a'm hanrhydedodd â dyfodiad eich cuddiadwyedd. A dysgwr wyf sy'n plisgo haenau hen a hen a hen a hen gystrawennau 'fyn oedi mewn un manyn o'th fod, gerbron yr helygen; a fi, mor wisgi'n ddysgwr yn codi o'r dŵr. Felly y chwaraewn gariadon.

SÊR YN GWYLIO

Cerddasai'r

noson hon

nawr

fel dyn

dall

a wyliai

hyd nes

y tasgai'r

wawr

ar hyd

y toi

tan agor

tuniau tyn

o lygaid

a chronfeydd

Bwrdd Dŵr

unllais

o stŵr.

Nid

cenfaint

o ddagrau

oedd

y llawenydd

hwn

yn heidio

hyd

fochau'r

nos,
dim ond
llygaid
ar ôl
llygaid
yma ac
acw wedi
alltudio'u
socedi.

Heb
feddwl dim
ond am fyd,
oedodd y du
o ddyletswydd
er mwyn
ofni uwchben
mewn
pryd.

Ni phaid,
nid oes
gwell peth
y gellid
ar noson
oer
ei wneud
na hel
llygaid.

DARGANFOD CEFN

Heno, a chofio mor fachludol athletig y bûm
ers tro, rhyfeddir bod genni'r fath her o gyhyrau
i'w darganfod. Am yr esgyrn, O! Bois bach! 'Rÿm
yn canfod cant arall o'u plant bob dydd. Pa gynnau
a gymhellodd eu tân i sant? Neb; ond 'Di-drefn'
a waeddaï beth sy? Pwy sy eisiau pwrcasu esgyrn,
fel llafn cleddyf araf yn goleuo'r du-fyd cyflym?
Rhyfedd fel yr amlyga hen ei gyflenwad o sgyrion cefn
yn sêr. Cripiant oddi arno i ddisgleirio'i gorneli chwyrn.

Pan fuaswn i gynt eisiau darganfod fy nghefn, mi awn
i gylchu rhod glôb heb droi pen nes dyfod i'm lle:
nawr fy nghanlyn 'wna hwnnw i fannau tu chwith...Yn ewn
mi ymddengys y Dydd – sydd ben iwaered lond nen
a sêr-llafnog, 'fu 'nghudd cyhyd uwch y golau cibddall –
yn swatio'n un cylch i sbecian drwy'r wybren wen
ar glwyfau (buont-yno-erioed) – nes gweld y Nos hyd eni dydd arall
a'i gwanc. Brysia hi'n folgi o'm blaen â sawl
gwasgariad o dywyllwch chwerthin, a'i sêr hi'n wincio ar gawl.

A'r sêr, a berthyn i eli'r wawr, sy'n anwel liw dydd,
ond yn torri drwodd liw nos, yw'r gyfrinach sydd
yn araf ymddangos drwy'r du. Llefarrant fel heulwen
am gleddyf annwyl o glwyf, ac am ei olau a ddiffydd.
Actiant, fel yr amlhânt, yn wawl i'm dirwyn i'r llen.
Osteoporosis a fi sy'n canu o'r un ddalen â'r emynydd,
'rÿm ni'n yfed o'r un sêr, ac yn cysgu yn yr un gwely,
os cysgu yw'r gair. A 'chwarddwn oll am jôcs ein gilydd.
Mae e'n hoffi celyn fy nghawl; ond dyw'r cawl ddim yn fy hoffi i,
(ond mi fywnaf ei yfed).